



Cefn Mawr a'r Cylch: Deall Nodweddion Trefol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2014
ISBN argraffu 978 | 85760 315 6
ISBN digidol 978 | 85760 314 9
© Hawlfraint y Goron 2014
WG19215

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.



Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Cefn Mawr a'r
Cylch:
Deall Nodweddion
Trefol

Cydnabyddiaethau

Fel rhan o'r astudiaeth hon, gwnaed ymchwil hanesyddol a gwaith mapio gan ymgynghoriaeth Govannon (Dr David Gwyn) o dan gontract i Cadw. Darparwyd y ffotograffau gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Cynnwys

Cyflwyniad	5	Ardaloedd â Nodweddion	48
Nodau'r Astudiaeth	5	1. Cefn Mawr	48
Tirwedd a Daareg Naturiol	6	2. Safle Flexsys	55
Cefndir Hanesyddol	8	3. Rhosymedre	56
Diwydiant	11	4. Cefn Bychan, Newbridge a Dolydd	60
Haeam	11	5. Froncysyllte	63
Tywodfaen	13	6. Trefor and Thref y Nant	65
Chwarela a Llosgi Calchfaen	15	7. Acrefair	67
Cloddio am Lo	16	8. Plasmadog	69
Clai	18	Datganiad Pwysigrwydd	70
Y Diwydiant Cemegol	21	Ffynonellau Dethol	71
Trafnidiaeth	23	Ffynonellau Archifol	71
Ffyrdd Tyrpeg a Lonydd	23	Ffynonellau Cartograffig	71
Dyfrffyrdd	26	Ffynonellau Cyhoeddedig	72
Rheilffyrdd	29	Ôl-nodion	74
Rheilffyrdd a Leins Mwynau Cynnar	29	Atodiad	77
Rheilffyrdd Locomotif	30	Asesiad Desg o Botensial	
Tirwedd Hanesyddol	32	Archeolegol Safle Flexsys	
Anheddiad a Gwaith Adeiladu	35		
Nodweddion Anheddiad	35		
Traddodiadau Adeiladu	40		

Rhestr o Fapiau tudalennau 87–102

1. Defnydd Hanesyddol o Dir
2. Cronoleg Aneddiadau
3. Llwybrau Trafnidiaeth
4. Rheilffyrdd
5. Safle Flexsys
6. Pob Ardal â Nodweddion
7. Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol
8. Cefn Mawr (1)
9. Safle Flexsys (2)
10. Rhosymedre (3)
11. Cefn Bychan, Newbridge a Dolydd
12. Froncysyllte (5)
13. Trefor a Thref y Nant (6)
14. Acrefair (7)
15. Plasmadog (8)

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth

Nod nodweddu trefol yw disgrifio ac egluro cymeriad hanesyddol trefi i roi ffocws i natur unigryw leol a gwasanaethu fel ffordd o reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy. Ei nod yw llywio a chefnogi rhaglenni cadwraeth acadfywio cadarnhaol, helpu i wella ansawdd cyngor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol.

Mae nodweddu trefol yn diffinio cymeriad hanesyddol unigryw trefi unigol, ac yn nodi'r amrywiaeth o nodweddion ynddynt, gan gydnabod bod y nodweddion hyn yn hanfodol i natur leol unigryw a brogarwch, ac yn ased o ran gwaith adfywio. Mae'n ystyried sut y caiff hanes tref ei fyngi yn ei chynllun a'i thirwedd, mewn ardaloedd o botensial archeolegol, ac yn ei chymeriad archeolegol. Nid archwiliad o nodweddion yn unig yw'r arolwg, ond ail-greu'r themâu a'r prosesau sydd wedi llunio'r dref.

Diben uniongyrchol yr astudiaeth hon yw llywio polisiau cynllunio a mentrau adfywio yng nghyffiniau safle Treftadaeth y Byd ym Mhontcysyllte, ac annog proses o integreiddio'n agosach rhwng safle Treftadaeth y Byd a'r aneddiadau sy'n gysylltiedig ag ef. Drwy helpu i ddiffinio nodweddion arbennig yr aneddiadau yn y cylch, bydd hefyd yn cynnig llwyfan cyffredin i bob polisi a rhaglen a fydd yn cyfrannu at y gwaith o gynnal nodweddion lleol.

Mabwysiadwyd astudiaeth *Cefn Mawr a'r Cylch: Deall Nodweddion Trefol* fel Canllawiau Cynllunio Ategol ym mis Medi 2012 ar ôl cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Chynllun Datblygu Unedol Wrecsam (2005), y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar droed a Nodyn Canllaw Cynllunio Ategol Safle Treftadaeth y Byd Dyfibront a Chamlas Pontcysyllte (2012).

Dyfibront a Chamlas Pontcysyllte: safle Treftadaeth y Byd ac ased pwysig ar gyfer Cefn Mawr a'r cylch (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tirwedd a Daeareg Naturiol

Lleolir ardal yr astudiaeth yn y fan lle mae afon Dyfrdwy sy'n llifo tua'r dwyrain yn gadael y dyffryn llydan ond uchel y bu'n llifo drwyddo ers ei tharddiad, ac yn llifo i wastatir Swydd Gaer a Swydd Amwythig. Ffuriant calchfaen yw pegwn mwyaf

dwyreiniol y gefnen sy'n diffinio'r dyffryn hwn tua'r de. Ar ochr ogleddol yr afon, mae ongl y llethr yn lleihau o amgylch Trefor, yna'n cael ei dorri gan ymwithiad tywodfaen sy'n ffurfio cefnen Cefn Mawr a Cefn Bychan tua'r dwyrain.

Cefn Mawr, wedi'i leoli'n ddramatig ar gefnen i'r gogledd o afon Dyfrdwy (Haulfraint y Goron: CBHC).




Cefn Bychan, ar waelod y gefnen ogleddol (Haulfraint y Goron: CBHC).



Mae'r gefnen ddeheuol, sy'n diweddu ym Mhen y Graig uwchlaw pentref Froncysyllte, wedi'i wneud o galchfaen, yr arferid ei chwarella'n broffidiol o ddiwedd y ddeunawfed ganrif i'r ugeinfed ganrif. Tua'r gogledd, mae Cefn Mawr wedi'i wneud yn bennaf o dywodfaen cwarts, yn frith gyda rhychau tenau o garreg rud,

haeamfaen, glo a chlai, mew'n dilyniant islaw'r tywodfaen, ond yn dal i fod yn agos at yr wyneb neu'n brigo. Roedd y crynhoad hwn o adnoddau naturiol hygyrch a gwerthfawr yn allweddol i ddatblygiad diwydiannol yr ardal, a ddylanwadodd yn sylweddol yn ei dro ar ffurf ac ymddangosiad nodedig ei aneddiadau.

Froncysyllte, ar lethrau serth y gefnen ddeheuol (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Cefndir Hanesyddol



Dyfrbont Pontcysyllte yn sefyll uwchben yr hen bont dros afon Dyfrdwy yn y darlun hwn gan John Warwick Smith (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Mae nodweddion Cefn Mawr a'r aneddiadau o'i amgylch yn adlewyrchu hanes diwydiannol yn seiliedig ar fanteisio ar adnoddau naturiol cyfoethog yr ardal. Mae wedi'i gysylltu'n agos â datblygiadau o ran trafnidiaeth, yn benodol adeiladu Camlas Llangollen, a oedd yn croesi afon Dyfrdwy i gyrraedd Trefor ar ddyfrbont Pontcysyllte yn 1805. Digwyddodd y datblygiadau hyn yng nghyd-destun defnydd tir a arferai fod yn amaethyddol. Ceir tystiolaeth helaeth o amaethyddiaeth o hyd o amgylch cyrion yr ardal astudiaeth ac ar lawr y dyffryn, a ddisgrifiwyd fel a ganlyn 'the Dee Valley broadens into green hedge-bordered water-meadows showing an industrial smudge only on the further side',¹ hefyd mewn ffermydd fel Tŷ Mawr, Cefn Bychan a Dolydd tua'r gogledd, Argoed a Thŷ Isa tua'r de. Fodd bynnag, diwydiant oedd y grym pennaf a lywiodd nodweddion presennol y dirwedd hon.

Gwyddys am yr adnoddau naturiol helaeth y manteisiwyd arnynt yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn cyfnodau cynharach a gall gweithgarwch bach fod wedi nodweddu economi'r ardal, efallai gan ddylanwadu ar siâp aneddiadau cynnar fel daliadau bach mewn rhwydwaith o lwybrau a lonydd. Ond buddsoddi mewn system drafnidiaeth ddiwydiannol – y gamlas i ddechrau ac yna'r rheilffyrdd – a sicraodd dwf mwy cynaliadwy yn yr ardal hon gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu diwydiannau cyfalafol yn ogystal â'r patrwm aneddiadau modern.

Mae'r patrwm hwn yn nodweddiadol anffurfiol, sy'n awgrymu proses ddamweiniol bron ac yn bendant yn un na reolir ryw lawer. Fodd bynnag, nid ardal ymylol oedd hon: o'r ddeunawfed ganrif o leiaf, roedd yn rhan hanfodol o ddaliadau sawl ystad ac roedd gweithgarwch sylweddol o ran



Patrymau aneddiadau anffurfiol ym Mroncysyllte (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Llain nodedig o dir ym Mroncysyllte, gydag adeiladau ar hyd ei ffin (Hawlfraint y Goron: CBHC).

prynu a gwerthu tir yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn rhannol mewn ymateb i'r cyfleoedd masnachol a ddaeth yn sgil manteisio ar gyfoeth mwynau.

Ystad Wynnstay oedd y prif dirfeddiannwr, ac mae ffin ei barc yn nodi newid disymwrth yn nodweddion y dirwedd tua'r dwyrain — cafodd gweithgarwch diwydiannol ac aneddiadau eu heithrio o'i ffiniau i raddau helaeth. Roedd tiroedd i'r de o afon Dyfrdwy a chyfran i'r gogledd yn perthyn i ystad y Waun, tra roedd ystad Plasmadog yn cynnwys cryn dipyn o ran ogleddol yr ardal. Y teulu Lloyd oedd yn berchen ar yr ystad hon yn wreiddiol, ac fe'i ffurfiwyd drwy

briodas â John Rowland (a fu farw yn 1803), ac yn ddiweddarach bu ym meddiant y teulu Youde hyd at 1856. Ymysg y tîfeddianwyr llai roedd Sarah Jones, gwraig weddw, yn Acrefair ar adeg creu rhestr y degwm yn 1844. Y teulu Owen, a ddaeth o linach y teulu Kynaston, oedd yn berchen ar ystad Plas Kynaston hyd nes i'r teulu Wynnstay ei chaffael yn 1813.

Roedd Plas Kynaston yn dŷ soffistigedig iawn o'r ddeunawfed ganrif ac er ei bod yn debyg mai ystad amaethyddol ydoedd yn wreiddiol, bu ei pherchennog yn ymwneud â chloddio am lo ar ei dir ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Gosodwyd y tŷ ei hun ar brydles i Exuperius Pickering ac yn

ddiweddarach i T.E. Ward, y ddau ohonynt yn entrepreneuriaid gyda diddordeb mewn pyllau glo a chwareli lleol. Adeiladodd Pickering gangen Kynaston o'r gamlas o fasn Trefor yn ystod y 1820au.

Roedd rhai o'r tirfeddiannwyr hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o fanteisio ar adnoddau ar eu tir – er enghraifft, roedd gwaith haearn ym Mhlasmadog erbyn yr ail ganrif ar bymtheg, a buddsoddodd perchenogion diweddarach yr ystad hon hefyd mewn datblygiadau diwydiannol ar y tir yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mewn

mannau eraill, ymddengys bod tirfeddiannwyr wedi bod yn fodlon caniatáu i eraill ymgymryd â'r datblygiad, gan elwa ar y rhenti uwch a ddaeth yn sgil hyn. Daeth y British Iron Company, a'i olynydd y New British Iron Company, yn dirfeddiannwr lleol pwysig yn eu rhinwedd eu hunain, gan feddiannu tir yng nghyffiniau'r gwaith ar adeg creu rhestr y degwm yn 1845, yn cynnwys tiroedd yn Acrefair lle datblygwyd gwaith brics a theils yn ddiweddarach. Roedd angen i weithfeydd ar y raddfa hon feddiannu llawer o dir er mwyn cyflenwi deunyddiau crai a gwaredu gwastraff.

*Plas Kynaston
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Diwydiant

O ddiwedd y ddeunawfed ganrif, datblygodd yr ardal fel economi diwydiannol amrywiol, wedi'i nodweddu gan lawer o fentrau bach a ildiodd yn raddol i gwmnïau mwy a mwy cyfalafog. I'r gogledd o'r afon, bwydodd y prif waith o gloddio am fwyn haearn, glo a chlai, safleoedd prosesu fel ffowndriâu haearn, melinau rholio a gwaith brics. Ond nid arweiniodd y gwaith cloddio na phrosesu at greu ardaloedd ar wahân; yn hytrach roeddent yn gorgyffwrdd mewn dilyniannau cymhleth llawn datblygiadau ac addasiadau, a gallai un safle fod wedi manteisio ar sawl adnodd, naill ai ar yr un pryd, neu'n ddilynol. Er enghraifft, roedd gan y British Ironworks yn Acrefair odynau brics yn ogystal â ffyrnau cols, ac roedd y pyllau i'r gogledd o'r ffordd o Riwabon i Langollen yn gweithio clai a glo, ac roedd y gwaith cloddio yn union gerllaw gwaith brics. I'r de o'r afon ceir darlun ychydig symlach, gyda chwaraela calchfaen a chynhyrchu calch yn brif weithgarwch. Yr unig safle diwydiannol mawr arall tua'r de oedd Gwaith Brics a Theils Pen y Bont.

Roedd y ffaith bod rhai o'r diwydiannau hyn yn fach yn wreiddiol, yn enwedig cloddio am lo, yn golygu y gellid eu cynnwys o fewn y patrymau defnydd tir a oedd eisoes yn bodoli am amser. O amgylch Tref y Nant, er enghraifft, dim ond ardal gyfyngedig a gymerai siaffttiau glo bach o fewn patrwm caeau amaethyddol. Fodd bynnag, wrth iddynt ehangu, roedd angen i'r diwydiannau lleol hyn feddiannu llawer o dir, ar gyfer gwaith cloddio, prosesu a gwaredu gwastraff. Ildiodd y systemau caeau neu'r tir agored lle cawsant eu lleoli'n wreiddiol yn gynyddol i anghenion y diwydiant, a greodd ei dirwedd ei hun. Ar safle'r British Ironworks y gwelwyd hyn amlycaf, ynghyd â'r gwaith cemegol a arweiniodd, wrth iddo ehangu yn yr ugeinfed ganrif, at lenwi cangen o'r gamlas, newid llwybr ffordd a oedd yn bodoli, ac adeiladu ffosydd ar gyfer y nant a arferai lifo drwy'r safle, a hynny i gyd mewn ffordd ddiidrugaredd.

Yn ogystal, roedd yr holl ddiwydiannau hyn, a gaiff eu hystyried yma fesul math, yn dibynnu ar rwydwaith trafniadaeth ar gyfer cludo deunyddiau crai o'u tarddle i safle prosesu, ac ar gyfer cludo nwyddau o safleoedd cynhyrchu neu brosesu tuag at eu marchnadoedd. Amharodd y prif wythiennau trafniadaeth hyn yn sylweddol

ar batrymau defnydd tir cynharach, gan ddod yn elfennau pwysig o'r dirwedd eu hunain. Amharwyd ar rai ohonynt, neu cawsant eu colli, wrth iddynt fynd yn segur, ond mae llawer wedi parhau yn elfennau gwydn o'r dirwedd fel fframwaith ar gyfer datblygu.

Haearn

'Two enormous sheets of flame shot up high unto the air from ovens, illumining spectral chimneys as high as steeples, also smoky buildings, and grimy figures moving about. There was a clanging of engines, a noise of shovels and a falling of coals truly horrible.' Y New British Ironworks, fel y'i disgrifiwyd gan George Borrow, 1862.²

Ceir cyfeiriadau at ddyddodion mwyn haearn yn Nhref y Nant ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg,³ ac roedd siaffttiau mewn sawl un o'r pyllau glo lleol yn pasio drwy strata mwyn haearn. Felly, roedd y deunydd crai ar gael yn lleol mewn sawl man, ynghyd â glo i'w brosesu ac, yn Newbridge, ynni dŵr i weithredu melinau rholio ar gyfer cynhyrchu haearn gyr. Ynghyd â chloddio am lo, mae'n debyg mai gwaith haearn oedd y diwydiant hynaf yn y cylch, a chwaraeai ran bwysig yn ei ddatblygiad yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cofnodwyd enghreifftiau o smeltio a phrosesu haearn yn yr ardal ers yr ail ganrif ar bymtheg o leiaf. Roedd ffwrnais chwyth a losgai olog ym Mhlasmadog yn 1677-78, a gynhyrchai gymaint â 300 tonn (272.15 tonn fetrig) y flwyddyn yn 1711, ac a allai fod wedi bod yn lleoliad arbrofion mewn smeltio côc yn 1757-61, neu'n gynharach o bosibl. Datblygwyd y fenter tan y teulu Lloyd o Blasmadog, a phriododd un o ferched y teulu John Rowland, a ddisgrifiwyd fel a ganlyn: '[he] devoted his long life to the accumulation of estates in Ruabon parish', ac a ddatblygodd y pyllau glo ar ei eiddo cynyddol hefyd, ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif ac ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁴ Sefydlodd Edward, ei fab, Waith Haearn Acrefair neu Riwabon Newydd ar yr ystad tua 1817, a sefydlodd rwydwaith o reilffyrdd cynnar i gysylltu'r pyllau glo â'r gwaith haearn. Daeth y cynhyrchu i ben yn y gwaith yn 1822, ac erbyn hynny roedd yn cynnwys dwy ffwrnais chwyth, 18 o ffwrneisi pwdlo, tŷ bwrw haearn dwbl mawr ac injan stêm o fath Boulton ac Watt i bweru'r gwaith chwythu. Parhaodd ei

*Ffurnais Acrefair
yn 1962
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Mae'r wal gynhaliol
drawiadol hon yn
etifeddiaeth bwysig
o'r British Ironworks
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Safle'r British Ironworks
yn 2011
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



olynydd am gyfnod hwy: prynwyd y rhyddfraint gan y British Iron Company yn 1825 (a newidiodd ei enw i'r New British Iron Company yn 1843, ac i'r New British Iron Company Ltd yn 1886), a pharhaodd y gwaith i gynhyrchu hyd at 1887. Fe'i holynwyd gan waith peirianeg, ac o 1891 ymlaen bu'r Meistri Hughes a Lancaster yn cynhyrchu alldafllwyr, pypiau, cywasgwyr aer a pheiriannau prosesu tecstilau. Caffaelwyd y gwaith gan Gwmni Butterley yn 1951. Caeodd Air Products, ei olynydd ar y safle, yn 2009, a chliriwyd y safle yn 2010.

Roedd y gwaith haearn yn sylweddol erbyn 1875, gan feddiannu sawl erw ar bob ochr i'r ffordd o Riwabon i Langollen, gyda rhwydwaith rheilffordd fewnol cymhleth a chysylltiadau â Rheilffordd Dyffryn Llangollen a basn y gamlas yn Nhrefor. Prin yw'r olion ffisegol sy'n gysylltiedig â'r safle diwydiannol mawr hwn, ond mae'r wal gynhaliol hir ar ochr ddeheuol y ffordd o Riwabon i Langollen, i'r dwyrain o'i chyffordd â Stryd y Brenin, Cefn Mawr, yn nodwedd amlwg, ac mae'r gwaith o glirio adeiladau modern wedi amlygu odynau posibl ar y llethr o dan Deras Lancaster yng nghefn y safle. Ceir olion ffwrmeisi cols hefyd yn y coetir y tu ôl i Deras Lancaster, ac mae'n debyg yr arferai'r tir i'r gogledd o'r ffordd (ac i'r gogledd-ddwyrain o Stryd y Capel) fod yn ardal gloddio a gwaredu.

Yn y cyfamser, ysgogodd y gwaith o adeiladu'r gamlas a'r ddyfrbont ddatblygiad gwaith peirianeg yn y cyffiniau. Credir mai yn ffowndri Plas Kynaston, a oresodd tan y 1930au pan gafodd ei ymgorffori yn safle'r gwaith cemegol, y cafodd y rhannau ar gyfer y ddyfrbont eu bwrw.



Mae sorod o waith haearn a ddefnyddiwyd wrth godi waliau yn atgof parhaus o ddiwydiant lleol pwysig (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Fel mentrau eraill yn y cyffiniau, manteisiodd ffoundri Plas Kynaston ar gyswllt rheilffordd cynnar â basn y gamlas yn Nhrefor i ddechrau ac, erbyn tua 1830, o gangen Kynaston o'r gamlas.

Olion odynau calchymnu sy'n gysylltiedig â'r British Ironworks (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Roedd melin rholio yn Newbridge erbyn 1808 a ffwrmais yno erbyn 1820, pan ddyfarnwyd contract i ddeiliaid prydles pwll Plas Isaf ym Mhen y Cae (i'r gogledd o ardal yr astudiaeth, a thu allan iddi) i gyflenwi 200 tunnell (181.43 tunnell fetrig) o lo yr wythnos, gan ddefnyddio cangen o'r rheilffordd o'r Craen. Gwerthwyd y ffwrmais i'r British Iron Company yn 1825,⁷ ac nid oes cyfeiriad at ygangen o'r rheilffordd yn llyfrau rhent Wynnstay ar ôl 1826.⁸ Mae rhestr y degwm yn 1846 yn ei alw'n 'old furnace bank', ac erbyn yr argraffiad cyntaf dim ond 'Old Forge Row' a'r ddyfrffos addangosir. Mae sylfeini a orchuddir gan laswellt a waliau isel wedi goroesi ger glan orllewinol yr afon, i'r dwyrain o Newbridge yn NGR 32892 34144.

Nid oedd tarddiad y ffoundri bwysig hon yn glir. Mae'n bosibl bod William Hazledine, y dyfarnwyd y contract ar gyfer cyflenwi'r haearn bwrw ar gyfer y ddyfrbont iddo yn 1802, ac a redodd y ffoundri hyd at ei farwolaeth yn 1840, wedi prynu'r brydles ar gyfer adeilad presennol, ond ni ddangosir unrhyw adeiladau ar fap o'r ystad yn 1804,⁵ er y ceir tystiolaeth amlwg bod pyllau glo yno. Fodd bynnag, mae'n anodd dychmygu nad oedd unrhyw fodd o fwrw elfennau'n lleol pan ddechreuodd y gwaith ar y ddyfrbont yn 1795. Roedd Hazledine wedi gweithredu ffoundriau yn Cole Hall yn Amwythig o'r 1780au, a chyfarfu â Telford yn 1789. Yn 1796 sefydlodd waith haearn yn Londen Coleham ger Amwythig. Cyfeiriodd Telford ato fel 'the arch conjuror' a dyfarnodd y contract am y gwaith haearn ar gyfer dyfrbont Pontcysyllte iddo ar 17 Mawrth 1802, er mawr siom i William Reynolds o Ketley a John Wilkinson o waith haearn Hadley. Yn ddiweddarach, gweithredodd Hazledine waith haearn Calcutts yn yr Ironbridge Gorge yn 1817 a gwaith calch Llanymynech. Cyflenwodd y gwaith haearn ar gyfer sawl contract pwysig arall o ffoundri Plas Kynaston ac o'i ffoundri arall yn Longdon Coleham ger Amwythig.⁶

Tywodfaen

Manteisiwyd ar chwareli tywodfaen o amgylch Cefn Mawr ers y canoloesoedd, a defnyddiwyd y garreg yn eglwysi Wrecsam a Gresffordd, ond ni nodwyd safleoedd chwareli cynnar. Mae traddodiad i'r garreg ar gyfer y ddyfrbont ddod o Cefn, ond nid oes llawer o dystiolaeth i nodi lleoliad chwareli mawr y cyfnod hwn, na sut y cludwyd y garreg ohonynt.

Ceir sawl posibilrwydd o ffynhonnell y garreg ar gyfer y ddyfrbont. Mae darluniau'r tirfesurwyr o'r ardal o'r 1830au yn nodi 'Chwarela' i'r gorllewin o Fasn Trefor (NGR 32696 34258), ac mae'r enw wedi goroesi ar gyffordd y ffordd o Riwabon i Langollen a'r ffordd sy'n arwain at y basn ar fap Arolwg Ordnans 1975. Fe'i nodir yn 'Chwarel' yn rhestr y degwm yn 1838, pan oedd ym mediant Thomas Lloyd, sgweiar Llys. Gall 'cae open cut'

a nodir yn SJ 2715 4284 hefyd fod wedi bod yn chwarel.⁹ Mae'n bosiblwydd o leiaf mai dyna oedd ffynhonnell y garreg ac y cafodd ei chludo gan ddefnyddio ceffyl a chert oddi yma i'r safle adeiladu.

Awgrymir ffynhonnell bosibl arall mewn astudiaeth o 1879, sy'n awgrymu, ond nid yw'n nodi'n bendant, i raeanfaen y ddyfribont, y gwnaed elfennau'r adeiladwaith ohoni, gael ei chloddio mewn chwarel fawr yn Tyfyn-uchaf (sic) a bod chwarel fawr arall o raeanfaen y ddyfribont yn 'Australia', ger hen orsaf reilffordd Trefor, lle y cynhyrchwyd clai brics yn ddiweddarach.¹⁰ Dengys y map Arolwg Ordnans 25 modfedd o 1873 fod chwarel yma, yn union i fyny'r llethr o'r Australia Arms ac mae Tddyn Uchaf (sic) yn fferm islaw mynydd Rhiwabon, tua 1.24 milltir (dau gilomedr) i'r gorllewin o Ben y Cae, y tu allan i ardal yr astudiaeth tua'r ogledd.

Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o chwarella ar raddfa fawr yn unrhyw un o'r lleoliadau hyn, nac o systemau trafndiaeth sy'n gysylltiedig â symud carreg ohonynt. O ystyried, mae'n fwy tebygol mai brigiadau Cefn Mawr ei hun oedd ffynhonnell carreg y ddyfribont. Roedd chwareli'n bendant yn cael eu prydlesu yma erbyn y 1820au,¹¹ cloddiwyd yn sylweddol am garreg Cefn ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif, a manteisir ar un wyneb cloddio o hyd, y tu ôl i i'r Stryd Fawr, Cefn (NGR 3279 3424). Roedd gwaith cloddio sylweddol arall yn rhedeg i fyny cefnen Cefn i'r dwyrain o'r Stryd Fawr, ac ar ymyl ogledd-ddwyrainol yr anheddiad, ar ochr ogledd-orllewinol Well Street (NGR 3281 3425), ac yn union i'r gorllewin o Rosymedre (NGR 3284 3431). Dangosir y rhan yn ddibynadwy am y tro cyntaf ar fap Arolwg Ordnans 25 modfedd 1873.

Chwareli'n frith ar gefnen Cefn Mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Hen wyneb chwarel yn Rock Croft, Cefn Mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Rock Place, sydd wedi'i enwi'n addas iawn, lle mae tai wedi'u lleoli ochr yn ochr â hen chwareli ar ben cefnen Cefn Mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ceir tystiolaeth o systemau trafniadaeth yn cael eu cysylltu â sawl un o'r chwareli hyn. Mae incleiniau posibl yn rhedeg i lawr o'r ardal chwarela i'r dwyrain o'r Stryd Fawr i gysylltu â'r rheilffordd gynnar ar lein Stryd y Brenin (canfuwyd blociau sliperi ar drac segur yn NGR 3279 3424), a gallai'r lein a ddaeth i lawr ar ongl o'r Stryd Fawr i Stryd y Brenin yn Minshalls, Croft fod wedi bod yn inclein yn wreiddiol. Cysylltwyd y chwareli mwy ar ochr ddwyreiniol y gefnen ger Rhosymedre â rheilffordd i Reilffordd y Great Western a basn y gamlas yn Nhrefor ger lein a redai'n gyfochrog â Crane Street a Stryd y Brenin ac oddi tanynt.

Ceir tystiolaeth hefyd o chwarela ar raddfa fach yng Nghefn Bychan, ar gyfer carreg adeiladu leol mae'n debyg.

Chwarela a Llosgi Calchfaen

Chwarelwyd calchfaen yn Nyffryn Ceiriog ers yr unfed ganrif ar bymtheg o leiaf, a hefyd yn Mhen y Graig uwchlaw Froncysyllte fwy na thebyg. Llwyddodd Pen y Graig i ddatblygu ymhellach yn sgil dyfodiad y gamlas. Dangosir odynau yn y chwarel mewn braslun o'r ddyfrbont yn 1809, ac ar fap o ffordd Telford yn 1817.¹² Ategwyd yr odynau hyn yn y chwarel yn fuan gan ddatblygiadau eraill ar hyd ochr y gamlas a'r A5, lle adeiladwyd pedair cyfres o odynau ar adegau gwahanol. Yn 1815, cysylltai inclein a redai i lawr yr hyn a elwir bellach yn Woodlands Grove y chwarel â chei camlas a chyda dwy odyn galch, y mae rhannau ohonynt wedi goroesi. Nodir bod y rhain yn eiddo i Frederick West o Quinta (a oedd hefyd yn berchen ar ran isaf y chwarel), ac wedi'u prydlesu i Hazledine and Company yn rhestr y degwm yn 1844¹³. Erbyn 1817, roedd cyfres o odynau calch



Roedd llinell Minshalls Croft unwaith yn blân ar oleddf oedd yn cysylltu chwareli ar ben y gefnen gyda rheilffordd gynnar (Hawlfraint y Goron: CBHC).

wedi'u hadeiladu ar dir a oedd yn perthyn i ystad Castell y Waun uwchlaw ffordd yr A5 i'r dwyrain o'r anheddiad presennol, a chawsant eu gwasanaethu gan 'slope road' o'r chwarel uchaf. Disodlwyd y ffordd hon gan reilffordd ac inclein ar ddiwedd y 1830au neu ddechrau'r 1840au, a all hefyd fod yn ddyddiad magnelfa ychwanegol o chwe odyn galch fawr a adeiladwyd ger y gamlas, mae'r rhain wedi goroesi i raddau helaeth.

Roedd grŵp arall o odynau yn Nhrefor, a sefydlwyd yn y 1830au. Cyflenwyd yr odynau hyn o'r de i'r afon ar hyd y gamlas, drwy gangen o Kynaston. Gall olion o'r rhain fod wedi goroesi mewn prysgwydd ar ochr ogledd-orllewinol Stryd y Frenhines yn NGR 32745 3 4261.

Mae chwarela wedi cael effaith sylweddol ar siâp y dirwedd a'i datblygiad ond, yn baradocsaid efallai, ni ellir gweld hyn yn uniongyrchol am fod y safleoedd yn aml yn segur ac yn anhygyrch.



Chwith: Llethr yr odynau calch dwyreiniol ym Mroncysyllte (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith pellaf: Llethr yr odynau calch gorllewinol ym Mroncysyllte (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Cloddio am Lo

Mae gan gloddio am lo hanes hir yn yr ardal. Noda ffynonellau dogfennau bod glo eisoes yn cael ei gloddio i'r gogledd o afon Dyfrdwy yn yr unfed ganrif ar bymtheg.¹⁴ Yn ddiweddarach, mae cofnodion Castell y Waun yn cofnodi cloddio am 'kennellcoale' (glo canel, term a ddynodai lo â lefelau uchel o ludw ac anweddolion ynddo) ar diroedd 'humfrey kynaston' yn 1701.¹⁵ Mae'r enw'n awgrymu'n gryf bod cysylltiad rhwng ardal Cefn ac ystad Plas Kynaston yn benodol. Hefyd, datblygodd y teulu Lloyd o Blasmadog a'u holynwyr y teulu Rowlands, byllau glo yn y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg¹⁶.

Roedd y gweithfeydd cynnar ond niferus hyn ar raddfa fach ac roeddent yn bodoli ledled yr ardal i'r gogledd o ffordd bresennol yr A539 o Riwabon i Langollen ac ar lethrau gorllewinol cefn Cefn ei hun. Dengys paentiad o Acrefair yn 1794 yr hyn a allai fod yn drefniant nodweddiadol yn y cyfnod cynnar hwn, sef offer dirwyn mewn cae, ond heb unrhyw dystiolaeth o dŷ pen pwll neu unrhyw gyfleuster arall – dyma'r unig dystiolaeth hysbys o bwll glo yn y lleoliad penodol hwn ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

Dengys presenoldeb siafftau ar fapiau cynnar, fel map yr ystad yn 1804 a darluniau'r Arolwg Ordnans, ble roedd gwaith yn mynd rhagddo mewn rhai pyllau cynnar ar yr adeg benodol honno, ond ni rydd unrhyw dystiolaeth o faint y gwaith dros gyfnod hwy, a gall fod yn anodd nodi lleoliadau penodol ar gyfer y gwaith cynnar hwn. Bu hyd yn oed yn rhaid i George Lerry, a dreuliodd flynyddoedd yn ymchwilio i hanes y pyllau yn ardal yr astudiaeth yn y 1940au, roi'r gorau iddi gyda rhai gweithfeydd glo: mae 'Cefn Colliery', fel y'i gelwir ganddo, rywle rhwng gorsaf Cefn a Fferm Dolydd, a gall fod wedi bod yn enw cyffredinol am gyfres gyfan o brydlesau, neu am siafftau a gloddiwyd gan feistr-lowyr y dyfarnwyd is-gontract iddynt a fyddai'n gadael o un rhan o'r brydles i fynd i un arall fel yr oedd yn addas yn eu barn hwy. Cred Lerry ei fod yn weithredol erbyn 1819 ac wedi cau cyn 1850, er ei bod yn bosibl bod gwaith yn mynd rhagddo yno yn ddiweddarach fel Gwaith Glo Cefn a drafodir isod.¹⁷

Mae'n debyg hefyd bod rhywfaint o gynllunio a chydweithredu yn y gweithrediadau cynnar hyn; ymddengys fod map 1804 yn dangos 18 o byllau yn ymestyn ar hyd ochr orllewinol Cefn Mawr,

Roedd yr offer dirwyn a ddarlunnir yn yr engrafiad hwn o 1794 yn gysylltiedig â gwaith glo bach yn Acrefair (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



o safle'r British Ironworks diweddarach mor bell â phen deheuol safle presennol Flexsys (rhwng NGR 32765 34234 a 32827 34336). Gwelir lefel ddraenio gyffredin, sydd wedi goroesi, yn NGR 327654 342367. Awgryma'r nodwedd hon y llwyddodd y glowyr amrywiol a oedd yn ddeiliaid prydles a'r tirfeddianwyr i gydweithredu ar ymarfer a fyddai wedi bod yn un costus iawn.¹⁸

Gostyngodd costau allforio gyda dyfodiad y gamlas ac anogwyd y glowyr a'r deiliaid prydles i fuddsoddi mwy mewn technoleg, ac erbyn 1823 roedd 'Big Engine', injan bwmpio mae'n debyg, yng Nghae Glo yng nghyffiniau SJ 280 429.¹⁹ Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd gwaith glo wedi'i ganoli mewn nifer o brydlesau ar wahân, yn bennaf yng Nghae Glo, Cefn, Plas Kynaston, Dolydd ac Wynnstay. O'r rhain, roedd Gwaith Glo Cefn yn rhan o brydles i Exuperius Pickering o ystad Wynnstay a gall fod wedi bod yn gyfuniad o'r pyllau ger man terfyn camlas cangen Pickering. Mae map heb ei ddyddio, ond sy'n amlwg ar ôl 1872, yn nodi ei fod wedi'i leoli tua SJ 2785 4225 (y maes parcio yng Nghefn Mawr), ac mae map Arolwg Ordnans 1875 yn nodi 'old shaft (coal)' yn y lleoliad hwn. Yn 1843, roedd yn eiddo i'r North and South Wales Bank fel derbynnydd i John Pickering, mab Exuperius.

Lleolir safle Gwaith Glo Plas Kynaston i'r dwyrain o Gefn Mawr yn NGR 32835 34222, ond nid yw'n glir a yw hyn yn nodi safle'r cloddio cyntaf.²⁰ Lleolwyd Dolydd, fel y mae ei enw'n awgrymu, ar lawr Dyffryn Dyfrdwy, ac roedd yn cynhyrchu glo canel (Iard Rhiwabon).²¹ Lleolwyd Wynnstay (y 'Green pit') ar dir Wynnstay ger y rheilffordd o Gaer i Amwythig (yn SJ 2936 4331). Fe'i cloddiwyd yn 1856 gan y New British Iron Company, a bu'n weithredol hyd at 1927. Mae tŷ peiriant weindio fertigol o 1855-56 a thŷ gwyntyll Walker o 1902 wedi goroesi.²² Mae'n debyg mai'r rhain yw'r unig greiriau strwythurol sy'n bodoli o waith glo yn y cyffiniau.

Mae'r rhychau glo yn ddyfnach yn nwyrain ardal yr astudiaeth o gymharu â'r gorllewin. Mae dogfennau a thystiolaeth berthnasol yn awgrymu mai gweithrediadau bach, yn bennaf, oedd y gweithfeydd glo o amgylch Cefn, fel Well Street a Chae Glo, ymhell i mewn i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a bod y rheini o amgylch Rhosymedre yn fwy, ac yn cael eu weindio gan injans stêm a fframiau pen pwll sylweddol.

Mae llawer o safleoedd gweithfeydd glo cynnar iawn wedi diflannu yn sgil datblygiadau tai neu eiddo diwydiannol diweddarach. Mewn rhai lleoliadau i'r gogledd o Acrefair mae'n bosibl gweld tai pen pwll, sydd yr un maint ag yr oeddent yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Prin iawn yw'r adeiladau sy'n goroesi ac mae hyd yn oed y tŷ gwyntyll a'r tŷ injan pwmpio yng Ngwaith Glo Wynnstay wedi colli eu cyd-destun o ganlyniad i ddatblygiad yr hen safle gwaith glo.



Uchod: Safle Gwaith Glo Wynnstay (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Y tŷ injan yng Ngwaith Glo Wynnstay yw un o'r adeiladau gwaith glo prin i fod wedi goroesi yn yr ardal (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Nid ymddengys fod gweithfeydd glo bach cynnar wedi bod angen seilwaith trafnidiaeth sylweddol, ond o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd gweithfeydd mwy yn cael eu cysylltu fwyfwy â systemau trafnidiaeth, gan ddefnyddio rheilffyrdd lleol i gysylltu â'r gamlas, ac yn ddiweddarach â phrif linellau rheilffordd. Rheilffordd Ruabon Brook oedd y cyntaf o'r cysylltiadau hyn, a addaswyd yn rhannol ar gyfer tyntiant stêm ac fe'i disodlwyd yn rhannol gan reilffordd newydd yn y cyfnod rhwng 1864 a 1873. Y newid mwyaf sylweddol o'r cyfnod hwn oedd disodli'r llwybr troellog rhwng basn Trefor a'r British Ironworks gan linell fwy uniongyrchol. Mae'r hen llwybr wedi goroesi fel Oilworks Road yn safle Flexsys, fel Railway Road ac fel Stryd y Brenin i'r gogledd o'r Craen i'w chyffordd â'r Stryd Fawr.

Dde pellaf: Gwaith clai ger Cefn Mawr, 1950 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Gwasanaethodd Rheilffordd Ruabon Brook fuddiannau diwydiannol amrywiol ar hyd ei llwybr yn ystod y cyfnod pan ddefnyddiwyd ceffylau a locomotif. Weithiau, creodd mentrau mwy diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg eu cysylltiadau rheilffordd eu hunain. Er enghraifft, dengys map Arolwg Ordnans 1875 fod gan Waith Glo Plas Kynaston gilffyrdd ar Reilffordd y Great Western (GWR), ond fe'i cysylltwyd hefyd gan ei reilffordd ei hun, a ddefnyddiai geffylau mae'n debyg, i fan terfyn cangen Kynaston o'r gamlas, gan groesi Stryd y Frenhines ger ei chyffordd â Dolydd Road. Roedd y lein hefyd yn gwasanaethu Gwaith Glo Dolydd. Mae'r lein hon wedi diflannu'n llwyr. Lleolwyd Gwaith Glo Wynnstay ar gyffordd y GWR (y lein o Gaer i Amwythig) a Rheilffordd Dyffryn Llangollen yn ogystal â chael ei gwasanaethu gan gangen o ailymgorfforiad locomotif Rheilffordd Ruabon Brook ('cangen Plasmadog').

Dde pellaf: Gwaith brics a theils Acrefair, fel y cofnodwyd gan Geoff Charles yn 1939 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Gwaith clai sy'n gysylltiedig â gwaith brics a theils Acrefair, 1939 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Clai

Roedd clai yn frith ymysg y rhychau glo yn y ddaear dywodfaen, a chyfrannodd y gwaith o fanteisio arno at nodweddion yr ardal hon (ac i eraill ymhellach i ffwrdd), drwy allforio deunyddiau adeiladu.

Ymddengys na ddechreuwyd manteisio ar y cleiau hyn tan y 1850au, efallai yn sgil cysylltiadau trafnidiaeth da â'r gamlas a'r rhwydwaith reilffordd genedlaethol. Datblygwyd gwaith priddwaith bras yng Nghefn Mawr – Crochendy Plas Kynaston - ger man terfyn cangen Kynaston o'r gamlas o 1856. Roedd yn arbenigo mewn cynhyrchion terracotta a phriddwaith bach fel potiau blodau a phadelli hadau, ond gwneud brics, wedi'u gweithio



gyda marl coch cystradau glo uchaf, a gafodd effaith arbennig o arwyddocaol ar yr ardal. Roedd gwaith brics Penbedw Bower yn weithredol erbyn y 1850au ac roedd gwaith Plas Isa yn weithredol erbyn 1860. Roedd y safleoedd hyn yn cwmpasu ardal eang iawn o amgylch Trefor ac Acrefair.

Sefydlwyd gwaith Pen y Bont ger Newbridge tua 1865 a chymerodd J. C. Edwards reolaeth ohono tua 1869. Wrth i'r gwaith ehangu fe'i cysylltwyd i ddechrau â'r gamlas gan lein gul a dynnwyd gan geffyl, yna i brif lein y GWR gan gilffordd safonol gul a dynnwyd gan locomotif. Roedd J. C. Edwards wedi sefydlu gwaith yn Nhref y Nant yn 1866, a oedd, gyda gwaith clai tân cysylltiedig Tref y Nant, wedi'i gysylltu gan lein cangen â Rheilffordd Dyffryn Llangollen. Roedd busnes

gweithgynhyrchu brics a theils J. C. Edwards yn cynnwys gwaith arall yn Rhosllannerchrugog, a daeth yn gwmni cyfyngedig yn 1903.²³ Roedd gwaith brics silica Trefor (Garth), a alwyd hefyd yn waith brics Australia (yn union i'r gogledd o gyffordd Ffordd Llangollen a Ffordd y Garth) yn weithredol erbyn 1885, ac roedd wedi'i gysylltu yn yr un modd gan gilffordd safonol gul â'r brif lein, a oedd yn croesi'r A539, y ffordd o Riwabon i Langollen, ger tafarn The Australia. Sefydlwyd mentrau amrywiol llai hefyd ar draws yr ardal (yn NGR 3269 3431, 3277 3426, 3280 3422 a 3279 3423).

Daeth y gwaith cynhyrchu brics i ben o fewn ardal yr astudiaeth yn y 1960au, ac mae'n syndod nad oes llawer wedi goroesi o'r diwydiant hwn uwchlaw'r ddaear, er gwaethaf maint a nifer y

Mae'r waliau hyn yn grair pwysig o waith brics Tref y Nant, ac yn enghraifft wych o'r hyn a gynhyrchwyd yno (Hawlfraint y Goron: CBHC).



safleodd a fu'n weithredol. Mae waliau mynediad gwaith Tref y Nant wedi goroesi ar hyd y brif ffordd, a gall fod rhai olion o strwythurau ar y safle ei hun, sydd wedi tyfu'n wyllt gyda choetir; efallai bod strwythurau sy'n gysylltiedig â gwaith Penbedw yn y coetir i'r dwyrain o Stryd y Capel, Acrefair. Adeiladwyd ystad o dai ar safle gwaith Trefor yn Garth, ac mae safle Plas Isa i'r gogledd o Acrefair yn dir adferedig. Ym Mhen y Bont, mae'r pwll a'r odynau niferus gynt wedi cael eu trosi'n safle tirlenwi, a dim ond porthordy deniadol a phedwar bwthyn sydd wedi goroesi. Fe'u hadeiladwyd tua 1882, gan George Canning Richardson, pennaeth adran ddylunio Edwards. Y dystiolaeth fwyaf huawdl yw'r defnydd o addurniadau brics coch a therracotta nodedig mewn tai teras, capeli ac adeiladau masnachol ledled yr ardal. Dosbarthwyd cynnyrch y gwaith hwn yn eang hefyd, ac mae'r defnydd o frics o'r ardal hon yn nodweddu sawl tref arall yng Nghymru a thu hwnt.

Dwy o sawl enghraifft o'r brics a gynhyrchwyd yn lleol, sy'n gwneud cyfraniad mawr i nodweddion yr ardal (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Y Diwydiant Cemegol

Mewn partneriaeth â'r cyfreithiwr o Fanceinion, Timothy Crowther, sefydlodd Graesser, y cemegydd o'r Almaen, waith yng Nghefn Mawr yn 1867 i gynhyrchu paraffin o siâl gwaith glo. Addysgwyd Graesser yn yr academi gloddio yn Chemnitz yn Sacsoni, a sefydlodd ei yrfa yn y diwydiant cemegol ffyniannus yn yr Almaen cyn dod i Gymru. Pan agorodd ffynhonnau olew America, cwmpodd y farchnad a diddymwyd y bartneriaeth. Yna trodd Graesser at gynhyrchu ffenol o garbolig crai, a gynhyrchwyd gan

y diwydiannau nwy a thar, ac erbyn 1910, roedd yn cynhyrchu hanner cyflenwad y byd. Drwy gysylltiadau teuluol yn Sacsoni, cynhyrchodd lifion synthetig ac asid picrig ar gyfer trin llosgiadau. Yn 1920 caffaelwyd hanner cyfranddaliad gan waith Monsanto o St Louis, Missouri (a enwyd ar ôl Olga Monsanto, gwraig y sylfaenydd, John Francis Queeny), a dechreuodd gwaith Cefn Mawr gynhyrchu sacarin, fanilin, asid salisylog ac aspirin. Yn 1928 daeth partneriaeth Graesser i ben, ac o 1930 cynhyrchwyd cemegion rwber.²⁴ Fel rhan o ymerodraeth Flexsys, parhaodd gwaith Cefn Mawr i weithredu tan ddechrau'r unfed ganrif ar hugain.



*Gwaith Cemegol
Monsanto yn 1988
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Dde: Gwaith Cemegol Monsanto yn ystod y broses o'i ddymchwel yn 2007 (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Wrth i'r gwaith ehangu, cymerodd reolaeth o hen safleoedd gweithfeydd glo bach, ffowndri Kynaston a chrochendy Kynaston (a'u dinistrio i bob pwrpas). Defnyddiodd gysylltiadau trafniadaeth cynharach ar draws y safle (Camlas Kynaston, cilffyrdd rheilffyrdd safonol cul) hyd nes iddynt gael eu difodi'n bennaf yn sgil gwaith ehangu parhaus yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Ar ôl cau'r gwaith yn rhannol, cliriwyd y rhan fwyaf o'r safle yn 2010, gan adael rhwydwaith o waliau cynhaliol a sylfaeni. Mae rhan o bont dros y gamlas, a chwpl to o'r ffowndri ymysg yr ychydig o olion gweledol o'r defnydd cynharach o'r tir.



Isod: Safle'r gwaith cemegol wedi'i glirio yn 2009 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Trafnidiaeth

Fel y gwelwyd, chwaraeodd y broses o ddatblygu cysylltiadau trafniadaeth ran hanfodol yn y gwaith o ddiwydiannu'r ardal ar ôl i'r gwaith o adeiladu'r gamlas ei hagor i farchnadoedd ehangach am y tro cyntaf. Dylanwadodd rhwydweithiau trafniadaeth o bob cyfnod ar siâp aneddiadau hefyd, wrth i'r bylchau rhwng lonydd a ffyrdd gael eu gwladychu i ddechrau, a darparodd ffyrdd tyrpeg, camlesi a rheilffyrdd seilwaith ar gyfer datblygiad.

Ffyrdd Tyrpeg a Lonydd


Ffurfiodd y prif rwydwaith o ffyrdd gysylltiadau rhwng Dyffryn Dyfrdwy a thref farchnad Llangollen, gyda'r Waun a Rhiwabon. Mae ffyrdd presennol yr A539 a'r A5 yn dilyn yn fras y llwybrau cynharach hyn o'r dwyrain i'r gorllewin, a sefydlwyd fel ffyrdd tyrpeg yn y ddeunawfed ganrif.²⁵ Dangosir y ffordd o Riwabon i Langollen, mewn engrafiad o 1794, fel lôn wledig droellog yng nghyffiniau Acrefair, a chafodd ei gwella yn fan hon yn 1818 (mae'r rhan rhwng Plasmadog a Thref y Nant yn nodedig o syth).²⁶

Roedd y gwaith o wella'r ffordd a fodolai eisoes rhwng y Waun a Llangollen, a'i had-drefnu'n rhannol, i ffurfio rhan o ffordd dyrpeg Thomas Telford o Lundain i Gaerdybi yn fwy arwyddocaol. Rhedai ar hyd ochr ddeheuol Dyffryn Dyfrdwy, o 1817, pan ddyfarnwyd y contract ar gyfer y rhan 'Near Biddilph's Lime Kilns, Chirk' i Thomas Evans, a oedd yn gyfrifol am adeiladu rhannau eraill o'r ffordd.²⁷ Mae cynlluniau'n cadarnhau mai gwelliant i ffordd a fodolai eisoes ydoedd.

Mae dau brif lwybr croes hefyd yn cysylltu ochrau gogleddol a deheuol Dyffryn Dyfrdwy o fewn ardal yr astudiaeth. Mae un yn croesi'r afon dros bont tri bwa Cysyllte, a adeiladwyd yn 1697. Mae llwybr arall tebyg yn rhedeg o Blas



Adeiladwyd pont Cysyllte yn 1697 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dyfrbont Pontcysyllte, yn sefyll uwchben pont yr hen ffordd dros afon Dyfrdwy (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Offa i'r gogledd o Riwabon, ac yn croesi afon Dyfrdwy dros bont fwaog a roddodd ei henw i 'Newbridge', y pentref tua'r gogledd, lle roedd pont wedi bodoli ers o leiaf 1478.²⁸ Mae'n debyg bod aliniad y llwybr hwn wedi'i ail-alinio sawl gwaith. Yn y ddeunawfed ganrif rhedai o'r gogledd i'r gorllewin o'r bont ar draws yr hyn sydd bellach yn Barc Wynnstay, ond pan adeiladwyd wal bresennol y parc ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae'n bosibl bod y llwybr wedi'i ail-alinio ar yr hyn sydd bellach yn Middle Street a Park Road (tybiaeth a atgyfnerthir gan y ffaith bod carreg â'r dyddiad 1810 ami ar dafarn The Black Lion). Felly, mae'n bosibl bod Newbridge Road ar ei ffurf bresennol yn cynrychioli gwelliant diweddarach. Dengys map Penarlâg o 1804 ffordd o Newbridge i Rosymedre yn rhedeg drwy'r parc, ond mewn ffordd sy'n awgrymu ei bod wedi cael ei disodli'n ddiweddarach gan Park Road.²⁹ Cynigiwyd yn 1813 y dylid ailadeiladu'r

rhan rhwng ffordd Caergybi a Newbridge; mae'n bosibl bod hyn yn rhan o broses fwy cyffredinol o wella'r llwybr, a bod y gwaith o adeiladu Newbridge Road ar ei ffurf bresennol yn rhan o'r broses hon.³⁰

Dangosir ffyrdd cynnar ar fap 1804 o Gefn Mawr, a gellir eu holrhain o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys Stryd yr Allt a Plas Kynaston Lane, ac echel y Stryd Fawr (Rhosymedre), Well Street, y Stryd Fawr (Cefn Mawr), a Stryd y Capel (Acrefair), yn ogystal â rhan o Stryd y Frenhines a Lôn Cae Gwilym Erbyn amser map y degwm o Gristionydd Cynrig yn 1845, roedd pen deheuol y Stryd Fawr yn ymuno â Well Street ger The Holly Bush, fel y mae nawr, ond noda'r map olion o'i aliniad cynharach mwy serth i lawr Stryd yr Allt i lle mae Crane Street yn rhedeg erbyn hyn. Fe'i nodir o hyd gan y llwybr troed serth sy'n disgyn o'r Stryd Fawr i Crane Street.

Mae'n debyg i dafarn The Black Lion gael ei hadeiladu ar lwybr cynnar o'r gogledd i'r de, cyn cyfnod Newbridge Road fel y mae heddiw (Hawlfraint y Goron: CBHC).





Mae lonydd bach, llwybrau a stepiau yn nodweddiadol o aneddiadau ar y llechwedd ar bob ochr i afon Dyfrdwy (Hawlfraidd y Goron: CBHC).



Mae rhwydwaith dwys ac afreolaidd o lonydd llai yn nodwedd benodol o lethrau uwch Cefn Mawr, uwchlaw'r llwybr drwodd cynnar hwn, yn ogystal ag ar lethrau Froncysyllte a Chefn Bychan. Mae lonydd yn rhedeg rhwng lleiniau tir afreolaidd a gallant fod yn weddillion llwybrau cynharach rhwng gweithfeydd diwydiannol bach, neu'r gofod a adawyd rhwng lleiniau o dir ar drefniant damweiniol o'r tir comin ar gyfer adeiladu. Mae llawer o'r lonydd a'r llwybrau hyn yn dilyn llwybr uniongyrchol i fyny llethrau serth, mewn gwrthgyferbyniad i reilffyrdd a phrif lwybrau, a oedd yn dilyn y cyfuchliniau.

Dyfrffyrdd

Cafodd y gwaith o adeiladu Camlas Llangollen drwy ardal yr astudiaeth rhwng 1795 a 1805 effaith sylweddol ar y dirwedd a'r aneddiadau. Er mwyn cynhyrchu elfennau ar gyfer y ddyfrbont bu'n rhaid sefydlu safleoedd gweithgynhyrchu diwydiannol mawr, a allai wedyn gyrraedd marchnadoedd rhanbarthol a chenedlaethol


gan ddefnyddio'r gamlas i gludo eu cynnyrch. Sefydlwyd ceiau ar gyfer allforio calchfaen, calch llosg a llechi Glyn Ceiriog ym Mroncysyllte, ac ar gyfer glo, cynnyrch peirianeg, a chynnyrch haearn bwrw a haearn gyr yn Nhrefor, sef prif fasn y gamlas. Oddi yma, cludwyd nwyddau ar longau rhwng y gamlas a Rheilffordd Ruabon Brook a'i olynwyr. Roedd nifer cymharol fach o aneddiadau yn gysylltiedig â'r basn, ac wedi'u clystyru ar hyd y ffordd o'r hen bont.

Dyfrbont Pontcysyllte, yn ymestyn yn falch dros afon Dyfrdwy (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Dde: Dyfrbont Pontcysyllte wrthi'n cael ei hadeiladu (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Dde pellaf: Dyfrbont Pontcysyllte o'r de-ddwyrain (Haulfraint y Goron: CBHC).





Cychod camlas ar y cei ym Mroncysyllte (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Basn Trefor (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Hen ardal y doc ym masn Trefor, lle câi nwyddau eu cludo o'r gamlas i'r rheilffordd (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Roedd basn Trefor yn gyfnewidfa bwysig; roedd tri bwa'r bont yn cario'r gamlas a rheilffyrdd a dynnwyd gan geffylau (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Y cwbl sy'n weddill o'r mynediad i hen Gamlas Kynaston ym masn Trefor (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Roedd dwy gangen yn arwain oddi wrth Gamlas Llangollen o fasn Trefor. Un o'r rhain yw'r gamlas a adeiladwyd gan Exuperius Pickering i roi mynediad i'r ffoundri ac i'r siafftau glo amrywiol ar yr hyn a ddaeth yn safle Flexsys, ac a ddarparodd allfa drwy gamlas yn y pen draw i waith glo Plas Kynaston. Rhedai'r gamlas hon o fasn Trefor drwy'r hyn a ddaeth yn safle Flexsys yn ddiweddarach i fan terfynu y tu ôl i Queen Street, Cefn Mawr tua NGR 32773 34230. Cynigiwyd adeiladu'r gangen hon yn 1820, roedd yn anghyflawn (o bosibl heb ei dechrau o hyd) yn 1829 ac roedd yn bodoli erbyn 1835-36. Dymchwelwyd Gamlas Pickering yn raddol o'r 1950au ymlaen. Ehangodd y gwaith cemegol

dros ei llinell, ond mae hwnnw hefyd wedi'i ddymchwel erbyn hyn. Rhan o bont garreg a gariai lôn dros y gamlas yw'r unig olion sy'n weddill.³² Roedd Cangen y Kynaston yn gyswllt effeithiol rhwng diwydiannau Cefn Mawr a phrif rwydwaith y dyfrffyrdd. Ers ei cholli – ac ers colli'r diwydiannau y bwriadai eu gwasanaethu - mae wedi bod yn fwy anodd gwerthfawrogi nodweddion diwydiannol Camlas Llangollen, a thorrwyd Cefn Mawr oddi wrth un o'i phrif linellau cyflenwi hanesyddol.

Arweiniai cangen fer o'r gamlas hon i odyrau calch Aber-nant ger pen gogleddol Stryd y Frenhines (NGR 32745 34261). Credir i hon gael ei hadeiladu yn 1838 neu'n fuan wedi hynny.

Rheilffyrdd

O 1805 o leiaf hyd at y 1960au, gwasanaethwyd yr ardal gan rwydwaith dwys a chymhleth o reilffyrdd o wahanol fathau. Y rhain oedd prif wythiennau'r datblygiadau diwydiannol, a hefyd gwnaethant helpu i lunio'r math o anheddiad. Er enghraifft, mae Stryd y Brenin yng Nghefn Mawr ar linell hen Reilffordd Ruabon Brook, a fu'n weithredol rhwng 1808 (os nad 1805) hyd at rhwng 1864 a 1873, ac roedd Woodlands Grove ym Mroncysyllte yn inclein yn wreiddiol. Hyd yn oed lle roedd gan y rheilffyrdd a'r strydoedd hawliau tramwy ar wahân, am sawl blwyddyn roedd trigolion yr ardal yn byw'n beryglus ac yn fudr o agos at locomotifau syntio a threnau o wagenni yn clecian yn swllyd dros groesfannau rheilffordd. Yr unig reilffordd weithredol o fewn ardal yr astudiaeth bellach yw'r brif lein o Gaer i Amwythig, ond mae llinellau llawer o'r lleill wedi goroesi'n llwyr neu'n rhannol.

Rheilffyrdd a Leins Mwynau Cynnar

Y rheilffordd gynnar bwysicaf oedd Rheilffordd Ruabon Brook. Fe'i hadeiladwyd dan nawdd yr Ellesmere Canal Company o fasn Trefor i ffowndri Plas Kynaston a phyllau cyfagos yn neu erbyn 1805 neu 1808, a'i hehangu fesul cam i ardal pwll Plasmadog, gan gyrraedd ardaloedd Pen y Cae a Rhosllannerchrugog yn y pen draw erbyn 1821. Wrth i ddiwydiannau ddatblygu a siafftau gael eu cloddio ar hyd ei llwybr, crëwyd canghennau a chilffyrdd i'w gwasanaethu. Bu'n weithredol hyd at y 1860au.³³

Yn ei cham cyntaf dywedwyd iddi redeg o fasn y gamlas heibio i ffowndri Hazledine i roi mynediad i byllau 6 a 7 Plas Kynaston (yn ardal NGR 32785 34279).³⁴ Erbyn 1808 roedd wedi'i hehangu i 'present terminus at Plas Madox colliery' (NGR 3292 3435), a cheiswyd contractwyr i'w hehangu i afon Eitha, nant a alwyd hefyd yn Ruabon Brook, tua'r gogledd (a thu allan i ardal yr astudiaeth).³⁵ Erbyn 1809 roedd wedi'i hehangu i afon Eitha, lle yr adeiladwyd cainc gan ddefnyddio arian cwmni'r gamlas, i gyrraedd gwaith glo New Engine.³⁶ Erbyn 1830 fe'i disgrifiwyd fel 'double railway' i 'Ruabon Brook, a distance of about three miles', a nodwyd mai'r peirianwyr a'i hadeiladodd oedd John Duncombe, William Jessop a Telford.³⁷ Mae'n debyg iddi gael ei hadeiladu fel rheiliau plât (rheiliau toriad L ar gyfer olwynion heb esgyll);

mae rhediad o sliperi carreg a ddarganfuwyd yn ddiweddar ac a gloddiwyd ger Stryd Fawr Cefn Mawr³⁸) ag un twll pigyn ym mhob un yn haws i'w gysylltu â rheiliau plât, er ei bod yn bosibl bod y rhan hon o'r trac yn perthyn i ran fer ar wahân o reilffordd chwarel garreg a ddangosir mewn map o tua 1840.³⁹

Mae sawl agwedd ar hanes a thechnoleg yn aneglur, yn cynnwys y 'craen' tybiedig, a oedd, os oedd yn bodoli o gwbl, yn gorwedd ar ochr y gyffordd rhwng lein wreiddiol 1805 i waith glo Plas Kynaston a'r lein i waith glo Plasmadog, ac felly yn ardal maes parcio presennol Craen. Yn ôl y sôn fe'i hadeiladwyd naill ai i gludo llwythau anhyblyg hir (fel bariau haearn gyr) ar longau, na allent gymryd y tro sydyn ar waelod Stryd y Brenin; neu i gysylltu â systemau trac anghydnavs, fel rheilffordd ymyl a rheiliau plât. Yn yr achos hwn gallai ddyddio o tua 1817, pan ddechreuodd gwaith haearn Acrefair gynhyrchu, a 1822 pan ddaeth y gwaith cynhyrchu i ben. Awgryma Ifor Edwards iddo drosglwyddo llwythi rhwng certi a wageni rheilffordd. Un awgrym arall oedd mai gwerthyd dirwyn ydoedd i godi wageni rheilffordd i fyny inclein ar reilffordd cangen i ffwrnais ac o dyn Lacon ar afon Dyfirdwy yn Newbridge. Adeiladwyd y rheilffordd hon yn 1820 gan ddeiliaid prydles pwll Plas Isaf (NGR 32809 34467) ac roedd wedi'i chodi erbyn 1845,⁴⁰ mae ei lein wedi goroesi fel llwybr troed ac fel Bower's Road, ymhellach tua'r de-ddwyrain caiff ei cholli o dan ystad o dai Dolydd. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth gadarn i gefnogi bodolaeth craen hyd yn oed, heb sôn am egluro ei ddiben. Cafwyd awgrym hefyd nad oes a wnelo'r gair 'crane' ddim â'r rheilffordd ond mai Seisnigiad o'r gair Cymraeg lleol 'craen' neu 'y graen' ydyw, sy'n golygu llethr.

Daeth Rheilffordd Ruabon Brook yn rhan o gonsortium y London and North Western Railway pan gymerodd brydles yr Ellesmere Canal Company o 1 Gorffennaf 1849. Dengys mapiau Arolwg Ordnans 25 modfedd cyntaf 1873 bod y system reilffordd gynnar hon wedi'i disodli i raddau helaeth yn ddiweddarach gan reilffyrdd diwydiannol locomotif diweddarach, a bod rhan o'r llwybr eisoes wedi'i chladdu gan y New British Iron Works.⁴¹

Cynrychiolir llwybr y rheilffordd hon gan Oilworks Road yn safle Flexsys, ac fel Railway Road a Stryd

y Brenin i'r gogledd o'r Craen i'w chyffordd â'r Stryd Fawr. I'r gogledd o'r fan hon mae ei llwybr wedi'i dileu gan waith Air Products, er bod olion yn amlwg fel nodweddion o'r dirwedd i'r gogledd o'r A539 yn Acrefair a thuag at Delph.

Ym Mroncysyllte, arferai inclein ar safle presennol Woodlands Grove gysylltu'r chwareli calchfaen ag odyrau ar lan y gamlas a chei erbyn 1815⁴². Adeiladwyd inclein diweddarach 0.12 milltir (200 metr) tua'r dwyrain (fe'i mesurwyd o'r fan lle mae'n pasio o dan yr A5); roedd yn bodoli erbyn 1842⁴³. Erbyn 1954 roedd basn y gamlas wedi'i lenwi ac roedd yr odyrau'n segur. Gweithredai'r system fel tri inclein wedi'u gwrthbwysio a rhan a dynnir gan geffyl ar draws y ffordd (yn SJ 274 412) i beiriant mathru ac felly i waith tarmac, â'r cynnyrch yn cael ei gludo gan lori. Bu'n gweithredu tan 1956.⁴⁴

Rheilffyrdd Locomotif

Gwelwn reilffyrdd cyhoeddus a diwydiannol a dynnwyd gan locomotifau am y tro cyntaf yn ardal yr astudiaeth pan agorwyd Rheilffordd Amwythig a Chaer, sydd dal yn weithredol, yn 1848 (sy'n cynnwys traphont bwâu carreg Newbridge). System arall a wasanaethai'r ardal

oedd Rheilffordd Dyffryn Llangollen o Riwabon i Langollen ac yn y pen draw i Gyffordd Abermaw. Agorodd hon fesul cam o 1859 ymlaen drwy Acrefair a Threfor, a chaeodd fesul cam yn y 1960au. Adeiladodd y rhain eu canghennau eu hunain i'r gamlas. Un o'r rhain oedd rheilffordd stêm a ddisodlodd Reilffordd Ruabon Brook i fasn Trefor, a adeiladwyd rhwng 1860 a 1865, a oedd bron yn segur erbyn 1945, ac wedi'i dileu erbyn 1953. Roedd hyn yn osgoi'r llwybr troellog ar hyd Railway Road a Stryd y Brenin. Mae wedi goroesi fel y clawdd sylweddol sy'n rhedeg o'r gogledd i'r dwyrain o fasn y gamlas, yn ogystal ag olion cilffordd sy'n dilyn llwybr Rheilffordd Ruabon Brook drwy safle Flexsys mor bell â maes pario presennol Crane Street (lle roedd yn gwasanaethu'r gwaith glo). Mae'n parhau i'r de o Well Street i roi mynediad i lein y GWR o Gaer i Amwythig ac i'r chwareli tywodfaen ar ochr ddwyreiniol Cefn Mawr. Roedd y llall yn gilffordd hir 0.74 milltir (1.2 cilometr) a dynnwyd gan geffyl o'r brif lein o Amwythig i Gaer yn union i'r de o draphont Robertson (SJ 286 408) ym Mhentre, i odyrau Broncysyllte. Fe'i gweithredwyd gan y GWR mewn cydweithrediad ag ystad y Waun hyd at 1940.⁴⁵ Mae llawer o'r cwrs wedi goroesi.

*Y draphont yn 1850
(Llyfrgell Genedlaethol
Cymru).*





Y draphont yn Newbridge yn 2007 (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae hanes rheilffyrdd locomotifau yn ardal yr astudiaeth yn hynod o gymhleth. Yn ogystal â'r rheilffyrdd cyhoeddus, roedd llawer o gilffyrdd locomotifau yn cysylltu Rheilffordd Dyffryn Llangollen â gwaith brics, gwaith glo, gwaith Monsanto ac ymgymeriadau eraill. Un o'r rhai pwysicaf o ran y dirwedd oedd 'cangen Cefn', a ddisodlodd gam cyntaf tramffordd Ruabon Brook yn rhannol, ond wedi hynny a ddilynodd ei aliniad ei hun o ardal y Craen a gwaith glo Cefn (SJ 2785 4225) yn gyfochrog â Crane Street, o dan Stryd yr Allt. Gwnaeth ei ffordd yn y pen draw i'r chwareli tywodfaen ar ochr ddwyreiniol cefnen Cefn a chyffordd â'r lein o Amwythig i Gaer i'r de o Rosymedre.⁴⁶ Roedd cilffyrdd eraill yn gwasanaethu'r British Ironworks yn Acrefair. Yma, fel gyda rheilffyrdd cynharach, ceir tystiolaeth bod eu cyrsiau blaenorol yn dylanwadu ar batrwm yr aneddiadau; mae Teras Lancaster yn Acrefair yn dilyn cwrs y gilffordd i'r ffymau cols yn y British Ironworks, ac adeiladwyd y tai wrth ymyl ar ochr y llethr cols.

Mae llawer o'r leiniau cangen hyn wedi diflannu heb olion, ond mae rhagfuriau'r bont sydd wedi



Lancaster Terrace, Acrefair, yn dilyn ben linell cilffordd rheilffordd a arferai wasanaethu ffyrnau cols y British Ironworks (Hawlfraint y Goron: CBHC).

goroesi yn nodwedd bwysig sy'n ein hatgoffa o'u bodolaeth.

Tirwedd Hanesyddol



Uchod: Tywodfaen yn cael ei arddangos yn Nhan y Graig, Cefn Mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Uchod dde: Froncysyllte, ar lethrau serth ochr ddeheuol afon Dyfrdwy (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Tir ffermio ar lawr gwastad y dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae tirwedd naturiol trawiadol yn sail i batrwm y defnydd tir ac aneddiadau. Wrth i afon Dyfrdwy ymddangos o gyffiniau dyffryn serth i wastatir ehangach Swydd Gaer a Swydd Amwythig, mae'n torri rhwng llethrau o galchfaen (tua'r de) ac ymwithiad tywodfaen (tua'r gogledd). Ar lethrau a chrib yr ail, sefydlwyd Cefn Mawr a Cefn Bychan; ac mae Froncysyllte yn cydio wrth lethrau serth y cyntaf. Mae'n debyg bod yr

aneddiadau hyn wedi aros yn agos at safleoedd lle roedd deunyddiau crai fwyaf ar gael – tir a allai fod wedi cyfateb i'r tiroedd pori agored neu'r tiroedd comin sy'n gysylltiedig â ffermydd a leolir ar dir mwy gwastad llawr y dyffryn. Mae'r tir amaethyddol gwell heb ei ddatblygu i raddau helaeth i'r de o'r afon, a dim ond yn ystod yr ugeinfed ganrif y cafodd ei wladychu gan ddatblygiadau tai cymdeithasol tua'r gogledd.



Ar draws y dirwedd hon, mae rhwydwaith cymhleth o lwybrau trafniadaeth yn adrodd hanes a datblygiad yr ardal. Roedd pont wedi croesi afon Dyfrdwy yn Newbridge ers y bymthegfed ganrif, ac yng Nghysyllte ers yr ail ganrif ar bymtheg. Ond pan adeiladwyd y ddyfrbont yn 1805, atgyfnerthwyd y cysylltiad rhwng ei dwy lan gan nodi ymyriad dramatig yn y dirwedd naturiol.

Cysylltwyd y gamlas yn ei thro yn ddwfn yn yr ardal gan rwydwaith o reilffyrdd cynnar a'i cysylltai â safleoedd cloddio a phrosesu, yn cynnwys Rheilffordd Ruabon Brook, yn ogystal â changhennau eraill y gamlas.

Arweiniodd y broses o ddatblygu safle Flexsys, gan gollu parhad y gamlas at ei man terfyn yn 1830 ychydig islaw Cefn Mawr, at dorri un o'r cysylltiadau pwysicaf a wnaed yn natblygiad diwydiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Er y gallai fod yn anodd dilyn hanes ei datblygiad, mae hierarchaeth glir i'r rhwydwaith o ffyrdd yn yr ardal – yn amrywio o'r prif lwybrau o'r dwyrain i'r gorllewin, sy'n ffyrdd tyrpeg o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn eu ffurf bresennol, i'r we o lwybrau llai a lleol sy'n croesi'r llethrau bob ochr i'r afon. Mae'n debyg bod y rhain wedi

datblygu mewn modd tameidiog mewn ymateb i waith cloddio mwynau ac adnoddau eraill, a thwf dilynol aneddiadau anffurfiol cysylltiedig. Rhwng y pegynau hyn, ceir llwybrau drwodd llai neu lonydd gwledig hefyd, yn cynnwys echel Cefn Bychan y Stryd Fawr, Well Street a'r Stryd Fawr yng Nghefn Mawr, sy'n parhau fel Stryd y Capel, Acrefair, ac sy'n crwydro i fyny i'r dirwedd amaethyddol tuag at fynydd Rhiwabon. Un llwybr cynnar arall posibl yw Lôn Cae Gwilym o Gefn Bychan, ar hyd Stryd y Frenhines i Dref y Nant, er bod llinell wreiddiol Stryd y Frenhines wedi'i cholli lle mae'n pasio drwy safle'r gwaith cemegol. Arweiniodd y llwybrau drwodd mawr a bach a'r rhwydwaith o lonydd a llwybrau llai a blethai drwyddynt, at fframwaith o aneddiadau, a nodweddyd gan wasgariad o anheddau sydd wedi goroesi o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn aml mewn lleiniau wedi'u diffinio'n glir yn ogystal ag mewn datblygiadau llinellol mwy cyson o ddegawdau diweddarach.

Yn fwy diweddar, cyflwynwyd rhwydwaith o ffyrdd eilaidd, yn bennaf mewn cysylltiad â'r broses o ddatblygu cynlluniau tai ar raddfa fawr ar dir a arferai fod yn amaethyddol, er enghraifft yn y Dolydd, Cefn Bychan a Phlasmadog.

Dyfrbont Pontcysyllte, yn ymestyn dros ddyffryn llydan afon Dyfrdwy, ac yn cysylltu aneddiadau ar bob ochr o'r afon (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae datblygiadau tai llai hefyd wedi gwladychu tir a arferai fod yn ddiwydiannol, er enghraifft ar safle'r British Ironworks yn Nheras Lancaster ac, yn fwy diweddar, ar safle hen waith brics y Garth yn Nhrefor.

Nid diwydiant oedd yr unig ffactor a oedd yn siapio'r dirwedd hanesyddol. Aeth yr

ardal i ddwylo sawl ystad, ac Wynnstay oedd y mwyaf dylanwadol o bell ffordd. Yn estyniad gorllewinol y parc, dargyfeiriwyd y ffordd o groesfan yr afon yn Newbridge i Riwabon, ac erys wal y parc yn ffin galed i'r gorllewin o aneddiadau Rhosymedre a Chefn Bychan.

Mae'r llain o dir lle saif Cefn Kynaston wedi'i amgylchynu gan ffyrdd a llwybrau (Haulfraint y Goron: CBHC).



Bythynnod ym Mroncysyllte, wedi'u badeiladu gyda'u waliau cefn yn union ar ymyl lôn (Haulfraint y Goron: CBHC).



Anheddiad a Gwaith Adeiladu



Nodweddion Anheddiad

Nid yw Cefn Mawr a'r cylch yn dref ddiwydiannol gonfensiynol o bell ffordd. Mae'n cynnwys sawl anheddiad penodol – Cefn Mawr, Rhosymedre, Cefn Bychan/Newbridge, Froncysyllte, Trefor, Acrefair a Phlasmadog – a phob un â'i hanes a'i gymeriad ei hun. Yn yr un modd ag yr oedd sawl cangen o ddiwydiant yn gweithredu ar raddau a lefelau gwahanol iawn o wladychiad, roedd sawl asiant hefyd yn ymwneud â'r gwaith adeiladu. Yn yr un modd ag yr oedd diwydiannau'n tueddu i wladychu ac ailfeddiannu'r un ardaloedd o dir, roedd adeiladau hefyd yn aml yn disodli strwythurau cynharach ar yr un safle, fel nad oes llawer yn goroesi o'r camau diwydiannu cynharaf (a bron ddim o'r cyfnod cynddiwydiannol). Mae'n annhebygol bod y bythynnod a nodwyd ar arolygon y degwm wedi goroesi o gwbl bellach,

mae eu safleoedd yn bennaf wedi'u meddiannu gan adeiladau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nodwyd hefyd yr adeiladwyd capeli ar safle hen anheddau, ac yn 1965 nodwyd bod anheddau a wnaed o garreg yn Newbridge yn cael eu dymchwel i wneud lle i fyngalos.⁴⁷ Yn aml câi tai cynnar eu hadeiladu ar safleoedd pyllau glo a llethrau sorod neu gerllaw, ac mae'n debyg bod ganddynt gysylltiadau agos â gwaith unigol. Defnyddiwyd hen safleoedd diwydiannol hefyd ar gyfer adeiladu yn fwy diweddar: adeiladwyd capel Bethel yn Acrefair yn 1895 ar domen sorod.⁴⁸ Adeiladwyd Teras Lancaster (datblygiad o'r 1950au mae'n debyg) yn Acrefair ar safle ffyrnau colts y British Ironworks a'r cilffyrdd a adeiladwyd i'w gwasanaethu.

Os oedd gweithfeydd bach wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal yn nodwedd o ddatblygiadau diwydiannol, gellir olrhain tueddiad tebyg yn natblygiad aneddiadau. Mae'r adeiladau cynharaf

*Rhes o fythynnod
ym Mroncysyllte
(Hawlfraint y Goron:
CBHC)*

sydd wedi goroesi (o ddegawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg) yn frith ar lechwedd Cefn Mawr neu wedi'u gwasgaru ar hyd echel y Stryd Fawr; mae eraill yn glystrau llac mewn lleiniau bach o dir neu wedi'u halinio â ffyrdd

a lonydd cynnar ym Mroncysyllte a Chefn Bychan. Yn nodweddiadol, mae'r rhain i gyd yn ddatblygiadau o fythynnod unigol neu resi byr iawn ac yn aml mae ffiniau amlwg i'w lleiniau afreolaidd, sydd weithiau'n dilyn siapiau'r adeiladau eu hunain.



Mae lleoliad adeiladau, a hyd yn oed llinell eu waliau, yn adlewyrchu siâp y lleiniau o dir y cawsant eu badeiladau ynddynt (Hawlfraint y Goron: CBHC).





Mae llwybrau a ffiniau yn siapio ac yn amgylchynu'r aneddiadau, fel y gwelir yma yng Nghae-glo (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd cwmnïau diwydiannol mwy yn cael eu sefydlu (yn fwyaf nodedig y cwmnïau cynhyrchu brics a theils cyfalafol), yn ogystal â'r ffaith bod y British Ironworks yn parhau i ehangu, a gweithfeydd glo mwy yn cael eu creu. Yn cyd-fynd â'r broses hon roedd patrymau adeiladu mwy a mwy ffurfiol ar gyfer tai. Er y gwelir llawer o anheddau unigol o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae terasau hirach yn fwy nodweddiadol, yn aml wedi'u halinio'n gadarn â'r ffordd. Yn y cyfnod hwn hefyd, gwelwyd mwy o wahaniaeth yn y stoc tai, a oedd yn amlwg ym maint a choethder tai teras, yn ogystal â phresenoldeb tai o statws uwch.



Terasau hir o dai brics, sy'n nodweddiadol o ddatblygiadau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde: Mae'r teras hwn yn Rhosymedre yn nodedig am ei reoleidd-dra, sy'n gwrthgyferbynnu â phatrymau mwy anffurfiol datblygiadau o gyfnodau cynharach (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Isod: Meintiau gwrthgyferbyniol: Ffordd Llangollen, Acrefair (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Uchod dde: Er mai tai teras a geir yma'n bennaf, ffafriwyd y llethrau sy'n wynebu'r de uwchlaw'r afon ar gyfer adeiladu tai mwy (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Roedd tai ar wahân mwy o faint yn nodwedd o'r gwahaniaeth mwy yn y stoc tai erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Yn yr ugeinfed ganrif, arweiniodd mentrau diwydiannol mwy eto (fel gwaith Monsanto a gwaith Lancaster) at broses barhaus o ehangu aneddiadau. Gwelwyd newid radical yng ngraddfa'r datblygiad, gan mai llywodraeth leol oedd y prif

asiant yn y cyfnod hwn, yn hytrach nag unigolion preifat; ceir amrywiaeth trawiadol o ddatblygiadau tai cynlluniedig o'r 1920au i'r 1970au yn yr ardal, sy'n gwneud i ddatblygiadau hapfasnachol edrych yn fach iawn o gymharu â hwy.



Tai cyhoeddus o'r 1950au ym Mhlasmadog (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Traddodiadau Adeiladu

Roedd ardal yr astudiaeth yn llawn deunyddiau crai ar gyfer adeiladu, ar ffurf tywodfaen Cefn a chalchfaen Fron, ac yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yn un o brif gyflenwyr deunyddiau wedi'u gweithgynhyrchu – brics, teils a therracotta. Defnyddiodd y rhan fwyaf o'r adeiladau a godwyd yn yr ardal cyn 1912 un o'r rhain (neu gymysgedd) fel deunydd waliau, ac er bod gan y rhan fwyaf ohonynt do llechi naill ai o ogledd-orllewin Cymru neu o bosibl o chwareli agosach yn nyffrynnoedd afonydd Dyfrdwy a Cheiriog, defnyddiwyd rhai teils to a gynhyrchwyd yn lleol hefyd.

Hyd nes i frics ddechrau cael eu cynhyrchu'n eang yn yr ardal yn y 1860au, carreg a welwyd yn bennaf mewn adeiladau lleol, wedi'i ddefnyddio'n agos at ei ffynhonnell yn y chwareli tywodfaen a chalchfaen i'r gogledd ac i'r dde o'r afon. Mae gan y gwahanol gerrig nodweddion gwahanol sy'n golygu y tueddir iddynt gael eu trin yn wahanol, gyda thywodfaen yn cael ei ddefnyddio fel cerrig llanw wedi'u sgwario neu fel cerrig rhywiog weithiau, a'r calchfaen bron bob amser yn cael ei ddefnyddio fel cerrig llanw garw. Efallai bod rendr wedi'i ddefnyddio pan oedd gan y gwaith maen orffeniad arbennig o arw, ac mae hyn fwyaf cyffredin yn yr ardal calchfaen.

*Dde a dde pellaf:
Cymysgedd o garreg a
brics ar gyfer adeiladau
yng Nghefn Mawr
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Dde: Tywodfaen fel
deunydd adeiladu,
Rhosymedre
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Dde pellaf: Yn aml,
gorffennwyd y calchfaen
a ddefnyddiwyd ar
gyfer adeiladu ym
Mroncysyllte gyda rendr
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Mae'r holl adeiladau sy'n perthyn yn fwyaf amlwg i draddodiad cynhenid lleol neu ranbarthol wedi'u gwneud o garreg. Weithiau mae gan y bythynnod lleiaf yn yr ardal doeau serth a simneiau amlwg sy'n aml yn gysylltiedig ag aneddiadau tresmasu. Mae'r dull yr adeiladwyd eraill yn fwy soffistigedig; yn fwy, gyda chynllun dwy uned, a gyda manylion

addumiadol fel cerrig 'kneelers' wedi'u mowldio a chonglfeini a chapanau drysau addumedig. Mae'r tai hyn – a gynlluniwyd ac a adeiladwyd fel arfer i fod yn dai ar wahân neu'n dai pâr – yn gwrthgyferbynnu â therasau o anheddau cynllun un uned, a ddatblygwyd yn dameidiog dros amser, neu a gynlluniwyd ac a adeiladwyd fel rhesi o'r cychwyn.

Mae'r to serth a'r simnai amlwg ar y bwthyn hwn yn nodweddiadol o'r traddodiadau adeiladu anffurfiol a nodweddiad gamau cyntaf anbeddiad (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Tŷ ar wahân wedi'i orffen yn dda, y Stryd Fawr, Cefn Mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Rhes anffurfiol fer, Stryd y Frenhines, Cefn Mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Parhaodd carreg i gael ei defnyddio hyd yn oed ar ôl cyflwyno brics, ond yn aml fe'i defnyddiwyd ar gyfer y waliau cefn ac ochr yn unig, gan sicrhau mai'r brics fyddai'n amlwg yn y bensaernïaeth.

Tai carreg wedi'u haddasu a'u hymestyn gyda brics, Newbridge (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Roedd cyfuno deunyddiau hefyd yn ganlyniad i waith ailadeiladu neu greu estyniad weithiau – roedd yn arfer cyffredin mewn ardal a oedd yn esblygu mor gyflym â hon.



Brics a ddefnyddiwyd i ychwanegu uchder i futhyn carreg ym masn Trefor (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Câi brics eu cynhyrchu a'u hallforio ar raddfa eang, ac yn aml fe'u cysylltwyd â mathau ac arddulliau adeiladu nad oedd sail draddodiadol iddynt, ond mae'r ffaith eu bod yn cael eu defnyddio'n lleol yn ffactor pwysig mewn perthynas â nodweddion lleol. Mae lliw yn allweddol i'r nodwedd hon (mae'r brics lleol yn lliw coch nodweddiadol iawn, ond cynhyrchwyd brics llwydfelyn hefyd); hefyd y defnydd o serameg a therracotta addurniadol; ac yn olaf, iaith bensaernïol ar gyfer y defnydd, a ddatblygodd yn gyflym. Roedd yr elfennau hyn yn amrywio o ddefnyddio brics arwyneb i nodweddu'r prif ffasâd (weithiau wedi'i gyfuno â charreg neu hyd yn oed gyda deunyddiau anhraddodiadol, fel brics gwydrog iawn ar waliau ochr neu gefn), i ddefnyddio manylion terracotta i addurno ffasâd neu i ddiffinio teras. Mae hierarchaeth glir yn y broses o ddefnyddio'r manylyn hwn, sy'n un o'r ffyrdd pwysicaf o ddynodi statws datblygiadau gwreiddiol. Roedd tai mwy, oedd mewn safleoedd mwy amlwg, yn ogystal ag adeiladau masnachol, yn tueddu i gael eu dangos yn amlycach – mae'n debyg bod synnwyr eu bod yn hysbysebu cynnyrch lleol.

Teras brics wedi'i adeiladu oddi ar dŷ carreg cynharach, Newbridge (Hawlfraint y Goron: CBHC).





*Chwith ac isod:
Brics a therracotta
a ddefnyddiwyd mewn
adeiladau masnachol,
Cefn Mawr
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Chwith pellaf a chwith:
Brics a therracotta
a ddefnyddiwyd
i arddangos tai yn
amlycach, Newbridge
ac Acrefair
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Manylion safonol
ar dai teras
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*





Brics arwyneb llachar ar dai teras, Ffordd Llangollen, Acrefair (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mae gan y tŷ hwn ar Stryd y Capel, Acrefair, ffasâd brics manwl hyfryd; mae un wal dalcen yn garreg, ond gwnaed y llall o frics gwydrog iawn, a ddefnyddiwyd hefyd yn y wal derfyn (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mae gan lawer o'r tai erddi blaen bach, ac mae waliau terfyn yn nodwedd bwysig (Haulfrait y Goron: CBHC).



Mae manylion ffiniau yn agwedd bwysig ar hierarchaeth arddangos adeiladau, ac yn aml roedd gan lawer o derasau brics, yn ogystal

â thai unigol, waliau terfyn brics a therracotta, yn aml wedi'u cyfuno â rheiliau haearn safonol – cynnyrch lleol, efallai.

Traddodiad lleol gwerthfawr arall, a gyfunodd y defnydd o garreg a brics o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r ugeinfed ganrif, oedd yr arfer o ymgorffori carreg yn nodi dyddiad yr adeilad, a oedd yn aml yn cynnwys enw'r deiliad. Mae'r enghraifft hynaf a nodir o hyn ar dafarn The Black Lion ar Park Road yn Newbridge, a'r dyddiad yw 1810, a 1866 yw'r enghraifft cynharaf mewn teras brics, a hynny ar Allt y Tŵr, Acrefair.

Yn ogystal, gall enwau tai neu enwau strydoedd roi tystiolaeth o ddyddiadau tebygol unrhyw waith adeiladu neu wella. Ymddengys bod Ffordd Alma ym Mroncysyllte yn ffordd dyrpeg o'r cyfnod cyn Telford ond mae'n debyg iddi gael ei gwella neu ei hatgyweirio yn ystod Rhyfel y Crimea, er bod y tai ar y stryd yn rhai diweddarach. Mae'n debyg bod Pretoria yn Nhrefor yn atgof o lwyddiannau Prydain yn 1900 yn Rhyfel De Affrica, ac mae'n debyg bod Allenby House yn Newbridge yn dyddio o gyfnod yn fuan ar ôl i luoedd Prydain fynd i Jerwsalem ym mis Rhagfyr 1917.



*Chwith ac isod:
Mae cerrig sy'n nodi
dyddiadau yn nodwedd
gyffredin yn yr ardal
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Hanes mewn enw:
Allenby House
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Ardaloedd â Nodweddion



Patrymau aneddiadau anffurfiol yng Nghefn Mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

I. Cefn Mawr

Cefndir Hanesyddol

*'70 or 80 years ago, the whole place was a common claimed by the freeholders for the use of their stock. Now the Cefn is full of strangers from all parts of the kingdom; crowded with shops, public houses and beerhouses.'*⁴⁹

Tyfodd Cefn Mawr fel anheddiad diwydiannol newyllol o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar

bymtheg fel cartrefi i weithwyr a gyflogwyd yn y diwydiannau a wasanaethwyd gan y gamlas – pyllau glo, chwareli a ffoundriau – er ei bod yn bosibl bod aneddiadau bach, yn gysylltiedig â gweithgarwch diwydiannol bach, cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Tan yr ugeinfed ganrif, amgylchynwyd yr anheddiad tua'r de a'r dwyrain gan olion tir amaethyddol amgaeedig. Mae'n bosibl y bu'r gefnen ei hun yn agored unwaith neu'n dir pori cyffredin gyda ffermydd iseldirol, a gafodd eu gwladychu'n gynyddol gan weithgarwch cloddio a chwarela gydag anheddau cysylltiedig, mewn proses o sgwatio.

Rhydd map o 1804 yn Swyddfa Gofnodi Penarlâg ymdeimlad o'r anheddiad hwn fel ag yr oedd yng nghyfnod cyntaf diwydiannu. Yn ei hanfod, ardal wledig ydoedd o hyd, gyda ffermydd yn y Cefn, Dolydd a Thŷ Mawr, a gyda siafftau glo wedi'u cloddio yn yr hyn a ymddengys yn gaeau agored. Nid yw'r map yn dangos y ffowndri, nac unrhyw gysylltiadau rheilffordd, nac unrhyw beth y gellir ei adnabod yn dai gweithwyr. Yn anffodus, mae'r rhestr sy'n gysylltiedig â hi bron yn annealladwy.⁵⁰

Mae Plas Kynaston yn enghraifft brin o'r tai cynddiwydiannol sydd wedi goroesi yng Nghefn Mawr.

Roedd yn ganolbwynt ystad fach, ac mae'n bosibl bod y tŷ'n dyddio o ddechrau'r ddeunawfed ganrif, er ei fod wedi'i ailfodelu tua chanrif yn ddiweddarach i'w ffurf bresennol. Mae ychwanegiadau diweddarach wedi'u dileu ers hynny gan adael y brif res o'r ddeunawfed ganrif yn unig. Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, chwaraeodd Plas Kynaston ran yn y broses o ddiwydiannu'r ardal. Hwn oedd cartref Exuperius Pickering, yr entrepreneur a oedd yn gyfrifol am ehangu'r gamlas.⁵¹

Roedd Plas Kynaston yn ganolbwynt ystad fechan unwaith (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ceir tystiolaeth bod Cefn Mawr yn cael ei wladychu yn negawd gyntaf ac yn ail ddegawd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, oherwydd yn 1820, gohiriodd Syr Watkin Williams Wynn gwynion yn erbyn 'the poor of Cefn Mawr ... for erecting and continuing houses', a oedd, mae'n debyg,



yn gydnabyddiaeth ar ei ran y gwasanaethwyd budd y cyhoedd, a'i fudd ef ei hun, drwy ganiatáu gwladychiad drwy sgwatio yn hytrach na'i wahardd.⁵² Mae cofnodion diweddarach yn nodi'r gwrthdaro rhwng y capel a'r byd seciwlar yn y cyfnod cynnar hwn, ond yn ogystal â bod yn enwog am ei Fedyddwyr teymgar, roedd Cefn hefyd yn enwog am ei omeisi reslo a herio teirw.⁵³ Awgryma map un fodfedd yr Arolwg Ordnans o 1838 fod yr anheddiad yn ddatblygedig, ac mae map y degwm o 1845 yn dangos bod llawer o ardal Cefn yn cynnwys 'Cottages and Gardens', fel pe na welai'r tirtesurydd unrhyw reswm i nodi'n fanwl yr hyn a oedd, mae'n debyg, yn aneddiadau hapfasnachol bach iawn na fyddent yn cael eu cynnwys ar restr y degwm beth bynnag.⁵⁴ Dengys map o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ystad Plas Kynaston mai prin oedd yr aneddiadau o hyd, ond erbyn adeg yr argraffiad 25 modfedd cyntaf yn 1873, roedd yr aneddiadau wedi datblygu i'r hyn a welir heddiw i raddau helaeth. Yr unig ehangiad sylweddol a gafwyd ers hynny oedd ychwanegu rhes o siopau ar hyd ochr ddeheuol Crane Street, sy'n ymddangos rhwng argraffiad cyntaf ac ail argraffiad map 25 modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1873 a 1899. Ers canol yr ugeinfed ganrif, cafwyd mwy o golledion nac o enillion ym mhatrwm yr aneddiadau, gan arwain at batrwm afreolaidd, yn enwedig ar ddau ben y brif ffordd drwy'r aneddiadau.

Er ei bod yn bosibl y bu aneddiadau damweiniol dros y gefnen a chlystyru ger y nant wrth gyffordd Stryd yr Allt a Queen's Road, rhoddodd llwybr drwodd cynnar rywfaint o strwythur i'r pentref oedd yn datblygu. Rhedai lôn cynddiwydiannol o Rosymedre, drwy linell Well Street a'r Stryd Fawr, i Stryd y Capel yn Acrefair. Ar hyd yr echel hon y gellir gweld yr ychydig o dai o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y pentref.

Uchod a dde: Nodweddir Cefn Mawr gan ddatblygiadau tameidiog, damweiniol oddi wrth y prif lwybrau trwodd, fel yma yn Lôn Brown's (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Darparwyd llwybr mwy hydrin rhwng Acrefair a Rhosymedre ar hyd echel Stryd y Brenin, a arferai fod yn rhan o Reilffordd Ruabon Brook, ac a ddaeth yn ffordd gyhoeddus pan roddwyd y llwybr trac ar brydles i Fwrdd Priffyrdd Cylch Wrecsam.⁵⁵ Erbyn 1873 roedd y llwybr yn amlwg wedi bod yn ffocws ar gyfer aneddiadau ers peth amser.

Ni ddangosir Crane Street ar fap y degwm 1845 ond dangosir y llwybr drwodd sy'n cysylltu Well Street a Stryd y Brenin ar fap ychydig yn ddiweddarach. Nid yw'n glir ai rheilffordd neu

ffordd yw hon.⁵⁶ Erbyn y 1860au roedd wedi dod yn ffordd, a rhedai'r rheilffordd o fasn Trefor a ffoundri Plas Kynaston i'r GWR yn union i'r de o honi, o bosibl ar hyd cwrs rheilffordd gynharach a dynnwyd gan geffyl. Daeth Crane Street a Well Street yn brif ffocws i ddatblygiad masnachol yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y cyfnod pan sefydlwyd Cefn Mawr fel prif ganolfan fasnachol y cylch. Mae Railway Road a Bowen's Lane yn llwybrau eraill sy'n seiliedig ar reilffyrdd, a gallant ddilyn yn fras gwrs inclein a rheilffordd gynnar i Newbridge.

Roedd Crane Street wedi dod yn ffordd bwysig ac yn ganolbwynt ar gyfer datblygiad masnachol yn erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Nodweddion Anheddiad

Erys llawer o nodweddion setliad diwydiannol cynnar yn y Cefn, fel strydlun sy'n rhannol seiliedig ar lonydd cynddiwydiannol (llwybrau drwodd a llwybrau lleol), ac yn rhannol ar systemau rheilffordd cynnar. Mae nodweddion anffurfiol anheddiad, lle mae anheddau naill ai'n annibynnol neu'n ffurfio rhan o resi byr iawn, heb unrhyw gyfeiriad cyson, hefyd yn nodweddiadol o aneddiadau diwydiannol cynnar. Ceir gwrthgyferbyniad rhwng nodweddion damweiniol aneddiadau datblygiadau o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn ddiweddarach

yn y ganrif, sy'n tueddu i fod yn llinellol yn hytrach nac wedi'u gwahanu. Roedd yr unedau datblygu yn nodweddiadol o fach o hyd – tai unigol neu eiddo masnachol, neu resi byr iawn, a dim ond gyda'r tai cymdeithasol a godwyd ar ôl 1947 y gwnaed unrhyw ymgais gyson i sicrhau aneddiadau cynlluniedig a rheolaidd ar raddfa fawr.

Fel arfer, adeiladau wedi'u gwneud o dywodfaen a geir o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg - ymysg yr enghreifftiau sydd wedi goroesi mae tai bach neu fythynnod sylweddol â gorffeniad cymharol goeth: os oedd anheddau sgwatio gwael yno, maent wedi hen ddiflannu erbyn hyn. Brics a

Tai wedi'u clystru gyda'i gilydd ar y llethr serth uwchlaw Crane Street (Hawlfraint y Goron: CBHC).




weithgynhrychwyd yn lleol oedd y prif ddeunydd adeiladu ar ôl tua 1860, ac ailadeiladwyd rhai tai neu adeiladwyd estyniadau cynharach gan ddefnyddio'r brics. Mae'n arwydd o ffyniant cynyddol y gymdogaeth bod sawl fila sylweddol wedi'u hadeiladu tuag at droad y ganrif, yn ogystal â chyfres o eiddo masnachol, yn manteisio'n nodweddiadol ar bosibilrwydd addumiadol deunyddiau a wnaed yn lleol ar ffurfiau pensaerïol newydd trawiadol, sy'n gwrthgyferbynnu â nodweddion cynhenid Sioraidd y cyfnod blaenorol. Mae'r adeiladau masnachol hyn yn golygu bod Cefn Mawr yn wahanol i aneddiadau cyfagos ac mae'n nodi ei statws fel canolfan drefol leol.



Eiddo tywodfaen wedi'u hadeiladu'n dda ar y Stryd Fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Disodlwyd carreg yn y pen draw gan frics fel y prif ddeunydd adeiladu, ond mae'r cymysgedd o'r ddau yn rhan bwysig o nodweddion yr aneddiadau (Hawlfraint y Goron: CBHC).



*Dde ac isod:
Defnyddiwyd brics
yn arbennig o effeithiol
mewn adeiladau
masnachol ar Crane
Street a Well Street
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*





*Safle'r gwaith
cemegol yn 2007
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

2. Safle Flexsys

Cefndir Hanesyddol

Mae prif ran y safle i'r dwyrain o Stryd y Frenhines wedi cael crynhoad o ddefnyddiau, sy'n cwmpasu bron pob diwydiant sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y cylch. Cloddiwyd am lo yno, gweithiwyd â chlai, gweithgynhyrchwyd haearn bwrw. O ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg disodlwyd y defnyddiau hyn yn raddol yn sgil ehangu'r gwaith cemegol (a sefydlwyd yno yn 1867) ac erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, y diwydiant cemegol oedd unig feddiannwr y safle, y mae wedi ehangu ar ei draws yn raddol, er bod hynny'n lleihau erbyn hyn.

Wrth i weithgareddau diwydiannol gynyddu yno, roedd hynny hefyd yn wir am drefniadau trafniadaeth. O ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, croeswyd y safle gan Reilffordd Ruabon Brook a'i holynwyr, gan ei gysylltu'n uniongyrchol â'r gamlas ym masn Trefor. O'r 1820au, arferai cangen o'r gamlas arwain

yr holl ffordd i mewn i'r safle, gan wasanaethu'r amrywiol ddiwydiannau a oedd yn datblygu yno yn uniongyrchol. Parhaodd y gamlas i weithredu ochr yn ochr â rheilffyrdd canghennog, ond rhoddwyd y gorau i'w defnyddio erbyn canol yr ugeinfed ganrif, ac fe'i llanwyd wrth i'r gwaith cemegol barhau i ehangu.

Er gwaethaf y ffaith y collwyd llawer o dystiolaeth ddiriaethol am ei hanes cymhleth, mae cymhlethdod y gweithgarwch diwydiannol a'r rhwydweithiau trafniadaeth yn rhoi arwyddocâd penodol a rôl hanfodol i'r ardal hon wrth ddeall deinameg datblygiadau yn yr ardal.

Tirwedd a Gwaith Adeiladu

Roedd y gwaith cemegol wedi ehangu ar draws y dirwedd ddiwydiannol gynharach, ac roedd hefyd wedi tresmasu ar dir a arferai fod yn amaethyddol tua'r de a'r gorllewin erbyn y 1920au, mewn cymysgedd o adeiladau a gweithfeydd. Ac eithrio sawl adeilad a rhai gweithfeydd o ganol yr ugeinfed ganrif, cliriwyd llawer o'r ardal ddwyreiniol yn 2010, gan adael

treftadaeth gymhleth o waliau cynhaliol, o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddechrau'r ugeinfed ganrif fwy na thebyg, y mae rhai o'r rhain yn ymgorffori nodweddion fel llefydd tân, cym simneiau a phibellau dŵr. Dyma'r brif dystiolaeth archeolegol ar gyfer prosesu cemegion hanesyddol ar y safle, ac mae amrywiaeth eu deunyddiau adeiladu yn nodweddiadol o'r cylch.

Potensial Archeolegol

Cyflwynodd datblygiad parhaus y gwaith cemegol yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif weithfeydd trwm gyda sylfeini dwfn ac, ar gyfer llawer o'r ardal, mae'n debyg bod hyn wedi dinistrio gwybodaeth yn ymwneud â defnyddiau tir blaenorol yma. Fodd bynnag, efallai y bydd yn bosibl cael gwybodaeth archeolegol o safle ffoundri Plas Kynaston gan nad adeiladwyd yno erioed; yn wir mae cwpl to o'r ffoundri wedi'i adfer eisoes. Adeiladwyd yn rhannol dros linell y gamlas (cyn belled ag y gellid gweld), ond mae'n bosibl nad amharwyd yn ormodol arni. Mae rhan o drosbont wedi goroesi a'r ardal yn union i'r de o'r bont sy'n cynnig y potensial gorau ar gyfer adennill gwybodaeth yn ymwneud ag adeiladu'r gamlas.

Adeiladwyd yr eglwys yn Rhosymedre gyda nawdd ystad Wynnstay yn 1836-37 (Hawlfraint y Goron: CBHC).

3. Rhosymedre

Cefndir Hanesyddol

Cofnodwyd achosion o dresmasu ar dir comin Rhos y Medre yn 1760, ond ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg nid oedd unrhyw adeiladau wedi'u cofnodi yno o hyd.⁵⁷ Noda map y degwm yn 1845 (ond nid yw'n mapio) 'Cottages and Gardens' ar y patrwm stryd trionglog.⁵⁸ Erbyn canol y 1860au roedd gwaith adeiladu'n mynd rhagddo yn yr ardal, ac mae'n debygol bod y rhes bresennol o siopau bach carreg deulawr ar hyd y Stryd Fawr yn dyddio o'r cyfnod hwn.⁵⁹ Mae'n debyg bod hanes Capel yr Annibynnwyr ar gyffordd y Stryd Fawr a Park Road yn dynodi'r camau datblygu yma: fe'i hadeiladwyd gyntaf yn 1836, fe'i hailadeiladwyd yn 1858, ac fe'i hailadeiladwyd eto yn 1883.⁶⁰ Mae'r eglwys yn dyddio o 1836–37 ac fe'i hadeiladwyd gyda nawdd ystad Wynnstay. Mae'n gysylltiedig â'r Parch. John David Edwards, 'ficer sy'n canu' y plwyf, a gyfansoddodd yr emyn dôn 'Rhosymedre' yma, un o ddarnau cerddoriaeth enwocaf y traddodiad Anglicanaidd yng Nghymru, a sail ail symudiad 'Three Preludes on Welsh Hymns' gan Vaughan-Williams.



*Adeiladwyd y Capel
Annibymol ar y Stryd
Fawr gyntaf yn 1836
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*





Mae ffurfioldeb taclus yn perthyn i resi teras Rhosymedre, gyda'u gwaith maen patrymog a manylion rheolaidd (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Nodweddion Adeiladu

Mae craidd yr anheddiad yn Rhosymedre yn gymharol adeiledig a llinellol, yn wahanol i aneddiadau eraill y cylch. Mae mwy o ffurfioldeb i'r rhesi teras nag mewn mannau eraill, wedi'u nodweddu gan waith maen patrymog a ffenestri codi (y mae rhai ohonynt wedi goroesi). Ceir elfennau o draddodiad cynhenid anffurfiol, efallai o gyfnod cyn y datblygiadau hyn, a sawl teras brics o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ehangodd yr anheddiad yn sylweddol yng nghanol yr ugeinfed ganrif mewn cyfres o ddatblygiadau tafarmdai cynlluniedig oddi ar Ruabon Road.

Yn Rhosymedre, mae rhai datblygiadau diwydiannol/masnachol sylweddol o ddechrau'r ugeinfed ganrif wedi goroesi.



Meintiau a deunyddiau gwrthgyferbyniol mewn tai o ddechrau a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Manylion nodedig mewn adeilad masnachol (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Y draphont yn Newbridge, gyda'r aneddiadau hanesyddol ar gyrion parc Wynnstay, a datblygiadau tai o'r ugeinfed ganrif yng Nghefn Bychan (Haulfaint y Goron: CBHC).

4. Cefn Bychan, Newbridge a Dolydd

Cefndir hanesyddol

Mae Cefn Bychan a Newbridge yn gorwedd ar gyrion parc Wynnstay, ger y fynedfa gefn, wrth ymyl un o fannau croesi afon Dyfrdwy. Cofnodwyd achosion o dresmasu yma yn 1760 ac, fel yng Nghefn Mawr, roedd teuluoedd gweithiol yn setlo yno ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁶¹ Gellir dilyn achosion cynnar o dresmasu ym mhattrwm damweiniol aneddiadau o amgylch Park Road a Middle Road, lle mae lonydd cul a llwybrau troed yn plethu drwy leiniau afreolaidd. Roedd yr ardal anheddu hon yn union y tu allan i ffin y parc, ac ar gyrion tir

fferm oedd yn gysylltiedig â ffermydd Tŷ Mawr a Chefn Bychan (fel y dangosir ar fap y degwm 1845 o Goed Cristionydd). Mae'n debyg bod gwaith haearn cynnar oedd yn cynnwys ffermais chwyth a melin rholio yn segur erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond mae'n bosibl bod y wal sorod sy'n ffurfio ffin y trac i draphont y rheilffordd o Lôn Gae Gwilym, islaw Tŷ Mawr, wedi'i hadeiladu o'r gwastraff.

Dylanwadodd y patrwm ffyrdd yn gryf ar yr aneddiadau, ac yn 1845 roedd rhywfaint o aneddiadau llinellol eisoes ar hyd y ffordd i Riwabon, yn ogystal ag yn dilyn llinell Park Road, a all fod wedi bod yn llinell gynharach o'r ffordd hon (y collwyd ei chwrs gwreiddiol pan ehangwyd y parc ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg).

Mae dyddiad cynnar Capel Newbridge (1825) yn arwydd bod yr anheddiad yno yn sefydledig iawn erbyn y cyfnod hwn, ac er bod tai o gyfnod diweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'u gwasgaru ar hyd y brif ffordd ac ar y lonydd cefn, roedd y prif ffocws datblygu wedi symud oddi yma erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan adael patrwm oedd yn nodweddiadol o ddamweiniol.

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, caffaelwyd yr ardal rhwng ffermydd Tŷ Mawr a Dolydd ar gyfer datblygiadau tai gan y cyngor lleol, wedi'u gosod mewn cyfres o ystadau cynlluniedig o'r 1920au i'r 1950au.

Nodweddion Adeiladu

Mae'r aneddiadau cynharaf wedi'u grwpio'n anffurfiol ar draws y llechwedd yn union y tu allan i wal y parc. Yma, mae adeiladau unigol neu derasau tameidiog yn nodweddiadol, mewn cymysgedd o ddeunyddiau sy'n adlewyrchu dyddiadau adeiladu neu addasu gwahanol. Mae dylanwad ystad Wynnstay yn amlwg ar adegau, er enghraifft yn Nhŵr Waterloo, a adeiladwyd ar fryncyn yn y parc yn 1815, a hefyd yn nhŷ'r asiant ychydig y tu allan i'r waliau. Mewn gwrthgyferbyniad â phatrwm datblygu damweiniol y cyfnodau cynharach, mae datblygiadau tai Dolydd o'r ugeinfed ganrif yn ffurfiol ac yn cynnwys gerddi helaeth. Nodweddir y camau datblygu amrywiol gan arddulliau gwahanol: tai pâr brics gyda tho clip sy'n nodweddiadol o'r 1920au (eraill gyda thalcenni uwch pictiwrésg); ac o'r 1950au, cymysgedd o dai pâr mewn rendr wedi'i baentio gyda phaneli parod, a grwpiau pictiwrésg o derasau wedi'u rendro'n wyn, fel ar Coronation Street.



Chwith: Mae'r capel yn Newbridge yn dyddio o 1825 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Patrymau aneddiadau cynnar anffurfiol ger wal y parc (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Tŵr Waterloo (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Adeiladwyd y tŷ hwn ar gyfer asiant ystad Wynnstay (Hawlfraint y Goron: CBHC).

*Dde ac isod: Grwpiau
pictiwrésg o dai, Dolydd
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Dde: Adeilad nodedig
o ganol yr ugeinfed
ganrif, Dolydd
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



5. Froncysyllte

Cefndir Hanesyddol

Mae'n debyg bod cymuned yn bodoli ym Mroncysyllte ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar ôl adeiladu'r gamlas, ac agor chwarel Pen y Graig, gyda'i hincleiniu a'i odynau calch cysylltiedig. Erbyn 1817, pan wnaed y map o ffordd newydd Telford, roedd clwstwr o dai yma eisoes. Oddi wrth y ffordd, mae'n debyg bod yr aneddiadau wedi datblygu'n bennaf drwy broses anffurfiol tebyg i sgwatio,

ac fe'i nodweddir gan ei rwydwaith o lonydd bach a llwybrau oedd yn rhedeg rhwng lleiniau afreolaidd, a oedd yn cynnwys adeiladau unigol neu resi byr. Erbyn 1842 gwelir grŵp gwasgareddig o aneddiadau yn yr ardal hon.⁶² Roedd y gamlas hefyd yn ganolbwynt ar gyfer aneddiadau wedi'u clystyru ger y basn.

Er i'r ardal barhau i ddatblygu yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd maint y prosiectau adeiladu'n gymharol fach o hyd. Ceir cyfres o ddatblygiadau cynlluniedig a datblygiadau tai cymdeithasol o'r 1920au a'r 1950au o amgylch Woodlands Grove, a arferai fod yn inclein yn cysylltu'r chwareli gyda'r gamlas.

Chwith: Froncysyllte, ar lethrau serth i'r de o afon Dyfrdwy (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith a chwith pellaf: Roedd y gamlas yn ganolbwynt pwysig ar gyfer aneddiadau (Hawlfraint y Goron: CBHC).



*Dde ac isod dde:
Roedd rheoleidd-dra
gwell yn nodwedd
o waith datblygu ar
ddiwedd y bedwaredd
ganrif ar bymtheg
a'r ugeinfed ganrif
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Isod: Y meintiau a'r
deunyddiau amrywiol
mewn patrymau
aneddiadau anffurfiol
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Nodweddion Adeiladu

Carreg a chwarelwyd yn lleol oedd y deunyddiau crai ar gyfer adeiladau cynnar, sef rwbwl calchfaen yn bennaf, gyda gorffeniad wedi'i rendro weithiau. Mae'r adeiladau carreg hyn yn cynnwys nodweddion cynhenid ac mae llawer ohonynt yn fach iawn. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd brics a weithgynhyrchwyd yn lleol yn nodweddiadol, gan sicrhau y gellid olrhain y gwaith o ehangu aneddiadau yn yr ardal hon. Roedd ansawdd y gorffeniad yn amrywio ymhlith tai teras brics. Mae'r datblygiadau tafarn dai yn Woodlands Grove yn cyflwyno cynllun ffurfiol a phalet lliw golau gyda'u waliau wedi'u rendro.

6. Trefor a Thref y Nant

Cefndir Hanesyddol

Cadwyd nodweddion gwledig Trefor a Thref y Nant hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, heblaw am weithgarwch diwydiannol bach i'r gogledd o'r ffordd o Riwabon i Langollen o gyfnod cynharach, ac adeiladu basn y gamlas ym mhen gogleddol y ddyfrbont rhwng 1795 a 1805. Roedd cyfres o lwybrau trafndiaeth yn croesi'r ardal – y gamlas i ddechrau, yna'r system rheilffordd o'r 1860au, ond nid oedd dim o hyn yn amharu'n sylweddol ar batrwm sylfaenol y caeau, a oroesodd i'r ugeinfed ganrif yn Nhrefor o leiaf. Roedd hyd yn oed datblygiad y gwaith tanio clai wedi'i leoli o fewn hen strwythur caeau. Roedd basn y gamlas yn gyfnewidfa bwysig, ond dim ond i raddau yr oedd yn ffocws ar gyfer aneddiadau, a dim ond yn y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel byd y cafodd ei ddatblygu go iawn, gyda chymysgedd o adeiladau hapfasnachol a thai awdurdod lleol.

Darparodd y brif ffordd rhwng Rhiwabon a Llangollen ryw fath o echel ar gyfer aneddiadau, ynghyd â'r lôn ddiwydiannol drwy'r Garth, yn enwedig ar ôl datblygu gwaith y Garth ar ôl 1885.



Uchod pellaf: Dyfrbont Pontcysyllte a Threfor (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Uchod: Basn Trefor (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Basn Trefor, gyda'r datblygiadau tai o'r ugeinfed ganrif gerllaw (Hawlfraint y Goron: CBHC).

*Dde ac isod dde:
Ar hyd y brif ffordd yn
Nhref y Nant ceir tai
nodedig iawn mewn
amrywiaeth o arddulliau
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Nodweddion Adeiladu

Mae tai wedi'u hynysu o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'u gwneud o garreg, ond datblygiadau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a welir yn bennaf ar hyd y ffordd o Riwabon i Langollen. Tai ar wahân mwy o faint neu resi byr yw'r rhain yn bennaf, gyda llawer ohonynt wedi manteisio ar botensial addurno brics lleol a gwaith teils i greu effaith drawiadol. Roedd rhywfaint o waith adeiladu hapfasnachol cyfyngedig yn ystod dechrau'r ugeinfed ganrif mewn amrywiaeth o arddulliau ar hyd y brif ffordd, ac mewn ystadau unffurf llai o faint rhwng y ffordd a'r gamlas.





Tai yn dilyn ymyl lôn gynnar — Chapel Street, Acrefair (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Gallai'r cymysgedd hun o fythynnod fod wedi bod yn gysylltiedig â'r British Ironworks (Hawlfraint y Goron: CBHC).

7. Acrefair

Cefndir Hanesyddol

Tyfodd Acrefair ar hyd y ffordd o Riwabon i Langollen, ac ar y lôn wledig gynnar (Stryd y Capel a Bower's Road) sy'n nodi parhad llwybr drwodd o Rosymedre tuag at Fynydd Rhiwabon. Gall fod aneddiadau bach yn yr ardal yn ystod degawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond twf y British Ironworks i ddechrau, ac yna'r gweithfeydd brics, teils a chlai lleol i'r gogledd o'r ardal a roddodd hwb i waith adeiladu mwy parhaus o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gellir gweld olion y diwydiannau hyn o hyd bob ochr i'r brif ffordd yn union i'r dwyrain o King Street a Chapel Street, ac yn y coetir i'r dwyrain o Bower's Road.

Nodweddion Adeiladu

Mae datblygiadau yn Acrefair yn tueddu i fod ar raddfa fach: rhesi byr, tai pâr neu dai ar wahân. Mae ambell i res garreg neu fwthyn bach yn awgrymu gwreiddiau cynhenid, ond adeiladau brics a geir yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o hyn yn cydymffurfio â chynllun safonol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er y ceir amrywiadau gyda hierarchaeth goeth o fanylion, yn cynnwys rhai enghreifftiau da o frics gwydrog iawn a ddefnyddir mewn waliau talcen ac ar gyfer ffiniau. Ceir datblygiad bach o fythynnod sy'n ymwybodol bictiwrésg ger safle'r British Ironworks, a ddarparwyd gan y cwmni efallai.

Oddi wrth y brif ffordd, mae datblygiadau o'r ugeinfed ganrif hefyd yn tueddu i fod yn fach a damweiniol eu patrwm, efallai yn meddiannu lleiniau bach ac efallai weithiau'n disodli adeiladau cynharach.

Gwaith brics o safon uchel mewn tai teras ar Ffordd Llangollen (Haulfraint y Goron: CBHC).



Brics gwydrog yn wal bellaf y tŷ olaf mewn rhes fer ar Ffordd Llangollen (Haulfraint y Goron: CBHC).



8. Plasmadog

Cefndir Hanesyddol

Plasmadog oedd canolbwynt ystad gynnar, lle datblygwyd un o'r diwydiannau cyntaf a gofnodir yn yr ardal. Roedd ffwrmais chwyth yma ers yr ail ganrif ar bymtheg o leiaf, ond ni ellir nodi lleoliad y ffwrmais erbyn hyn. Cofnodwyd gwaith cloddio yma hefyd, ac roedd pwll yma erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi'i gysylltu â basn y gamlas yn Nhrefor drwy Reilffordd Ruabon Brook ers 1808. Ni cheir unrhyw olion ar yr wyneb

o'r gweithgareddau diwydiannol hyn mwyach, nac o'r plas a'r gerddi cysylltiedig. Y ganolfan hamdden a'r ystad o dai a adeiladwyd yn 1968-70 gan Mervyn Edward, Morton and Partners o Groesoswallt yw'r prif nodweddion bellach, sy'n ehangu ar gynllun cynharach o'r 1950au.⁶³

Nodweddion Adeiladu

Mae'r tai o'r 1950au yn ymwybodol bictiwrésg yn eu grwpiau amrywiol ar hyd amlinellau'r bryn. Roedd datblygiadau diweddarach yn fwy adeiledig, ac yn fwy modern na thraddodiadol eu natur.



Chwith, chwith pellaf ac isod: Cynlluniau cynlluniedig a ffurfiol iawn yr ail gam datblygu ym Mhlasmadog (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Cam cyntaf pictiwrésg datblygiadau ym Mhlasmadog (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Datganiad Pwysigrwydd

Cafodd arwyddocâd eithriadol Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte ei gydnabod drwy'r ffaith iddynt gael eu cofrestru'n safle Treftadaeth y Byd yn 2009. Mae'r nodweddion peirianyddol sy'n gysylltiedig â'r gamlas a'r olion sy'n gysylltiedig â'r broses o'i hadeiladu a'r defnydd a wnaed ohoni wedi'u cynnwys o fewn safle Treftadaeth y Byd. Gellir gweld llawer o effeithiau sylweddol eraill ei gweithrediad yn yr ardaloedd yr oedd yn eu gwasanaethu'n uniongyrchol, neu oedd yn gysylltiedig â hi drwy'r rhwydwaith o lwybrau trafniadaeth a groesau'r cylch. Trawsnewidiwyd Cefn Mawr a'r cylch yn y ganrif ar ôl dyfodiad y gamlas, wrth i ganlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol y broses o'i hadeiladu ddod i'r amlwg yng nghymdeithas ac economi'r ardal.

Mae'r gamlas a'r ddyfrbont yn rhan o gyflawniad peirianyddol trawiadol a grëwyd ar raddfa enfawr fel menter unigol. Mewn gwrthgyferbyniad, nodweddwyd datblygiad y cylch gan sawl menter ar raddfa fach yn aml, gyda chyfresi cymhleth o ddefnyddiau yn gorgyffwrdd. Mae'r mentrau diwydiannol mwy hynny a ddaeth i'r amlwg hefyd wedi diflannu i raddau helaeth yn eu tro, gan adael etifeddiaeth sy'n dameidiog neu'n anuniongyrchol. Ond ar draws y cylch, mae canlyniadau ei hanes diwydiannol yn amlwg yn y dirwedd, naill ai yn y rhwydwaith hynod o lwybrau (y mae rhai ohonynt wedi'u torri neu'n cael eu hanwybyddu erbyn hyn), mewn pocedi segur o dir lle mae'n bosibl bod olion annifiniadwy o ddefnydd tir wedi goroesi o hyd, neu ym mhatrwm cymhleth aneddiadau. Ar draws y cylch mae gofod wedi'i drefnu mewn modd nodweddiadol sy'n aml yn ddamweiniol ac ar raddfa fach. Mae wedi'i blethu gan we o gysylltiadau – wedi goroesi, wedi'u difrodi neu eu colli, ac mae'n cynnwys amrywiaeth fywiog o draddodiadau adeiladu sy'n defnyddio deunyddiau o ffynonellau lleol neu a weithgynhyrchwyd yn lleol.

Mae cynnal a hyd yn oed atgyfnerthu nodweddion nodedig y cylch hwn yn golygu parchu amrywiaeth, anffurfioldeb a maint ei aneddiadau, gan gydnabod y safleoedd diwydiannol creiriol sydd wedi'u cydblethu â hwy, a chydnabod potensial llwybrau hanesyddol i gyfuno'r holl elfennau hyn.

Ffynonellau Dethol

Ffynonellau Archifol

A.N. Palmer Centre

Archif Flexys, mewn storfa ar hyn o bryd.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cyrolau darluniau 93 a 109.

Blwch 36, PA40111: Golygfa o Acrefair yn 1794.

Castell y Waun 6060 (1808).

Llawysgrif o Gastell y Waun 9629.

Wynnstay RA39.

Yr Archifau Cenedlaethol, Kew

Nodiadau wedi'u dyfynnu o'r Archifau

Cenedlaethol: RAIL 827/7 (camlas Cefn Mawr ac ati) gan Dr D. Gwyn.

Ffynonellau Cartograffig

Arolwg Ordnans

25 modfedd i un filltir, arolygon o 1873, 1899 a 1912.

Y Llyfrgell Brydeinig

Darluniau tirfesurwyr, Cynllun 340 (G), 1835-6 (Froncysyllte).

Darluniau tirfesurwyr, Cynllun 340 (d), 1832, 1835 a 1836 (Cefn Mawr, Acrefair, Trefor).

Swyddfa Cofnodion Rhuthun

QSD/DC/11: Camlas gangen arfaethedig.

QSD/DR/36: Rheilffordd Penbedw, Caer, Yr Wyddgrug, Rhiwabon a Dyffryn Llangollen, cynllun a llyfr cyfeimod a adneuwyd, 1845.

QSD/DR/43: Rheilffordd Amwythig a Chaer, cynlluniau a adneuwyd.

QSD/DR/47: cynlluniau Rheilffordd Sir Ddinbych, 1852.

QSD/DR/191: Rheilffordd Penbedw, Gogledd Cymru a Stafford, cynllun a llyfr cyfeimod a adneuwyd, 1871.

NTD/1184 (i): Map o ystad Plas Kynaston, c. 1850 (ffotocopi o HRO: D/DM/136/16).

DD/WY/5862: Cynllun o Newbridge, 1846.

Heb eu gweld

Ystyriai staff yr archif bod y dogfennau canlynol yn rhy fregus i'w cyflwyno:

QSD/DC/11: Map o'r gamlas o fasn Pontcysyllte i Neuadd Plas Kynaston, 1829.

QSD/DC/7: Cynllun o ffordd y rheilffordd drwy Gefn Mawr ac Acrefair, 1803.

Swyddfa Cofnodion Penarlâg

D/DM/162/8: 'Map of Plas Kynaston Estate and Colliery ... the property of William Owen Esquire ... 1804', gydag atodlen.

D/DM/136/16: Map o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ystad Plas Kynaston.

D/DM/162/16: Map o drefgordd Cysyllte, 1842.

D/DM/162/17: Cynllun ffordd o 1818 o Drefor Isaf.

14893/3: Map o ystad Plas Kynaston c. 1847:

Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint.

CB/5/12: Map o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ystad Plas Kynaston.

D/DM/370 cynllun o waith glo Plas Kynaston, 1829.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Map y degwm o'r Waun ac atodlen, 1839.

Map y degwm o Gristionydd Cynrig, 1845.

Map y degwm o Goed Cristionydd, 1845, adolygydd 1846.

Map y degwm o Gysyllte, map y degwm o 1838, atodlen o 1840.

Cynlluniau a adneuwyd o systemau rheilffordd lleol (Rheilffordd Sir Ddinbych, Dyffryn Llangollen).

Plwyf Llangollen, trefgordd Trefor Isaf, map y degwm ac atodlen.

Map y degwm o Langollen, trefgordd Cysyllte, 1844.

Cyrolau darluniau Llyfrgell Genedlaethol Cymru 93, fol. 38, CRO: X/Plans/RD/2, map o'r ffordd o'r Waun i Fangor, 1817.

Waterways Trust Gloucester

BW95/2/3: Cynllun o 1803 o'r rheilffordd arfaethedig (darparwyd gan Peter Brown).

Adnoddau mewn Dwylo Preifat

Biography of Benjamin Piercy gan Stephen Hughes CBHC (trawsgrifiad drafft ar gyfer y *Dictionary of National Biography*)

Cefn Mawr tramroads gan Peter Brown (trawsgrifiad drafft a gyflwynwyd i'r *Journal of the Railway and Canal Historical Society*, ac a ddefnyddiwyd drwy ganiatâd yr awdur)

Adnoddau Ar-lein

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: Coflein

www.rcahmw.gov.uk

www.coflein.gov.uk

Ffynonellau Cyhoeddedig

George Borrow, *Wild Wales*, (Llundain a Glasgow, 1955).

V. J. Bradley, *Industrial Locomotives of North Wales*, (Llundain, 1993).

W. J. Britnell, *The Vale of Llangollen Historic Landscape Characterization* (Y Trallwng, 2005).

P. Brown, 'The Plas Kynaston Canal', *Journal of the Railway & Canal Historical Society* (Tachwedd 2010).

A. Connolly, *Life in the Victorian brickyards of Flintshire and Denbighshire* (Llanrwst, 2003).

E Cooper, 'Festiniog Railway Reminiscence', *Festiniog Railway Heritage Group Journal*, 81 (2005).

D. Davies, *Tafarnau Cefn Mawr* (Wrecsam, 1946).

W. Davies, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales* (Bwrdd yr Amgylchedd, 1910).

A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales* (Wrecsam, 1990).

I. Edwards, Collection of records from Messrs. Longueville & Co., Oswestry, *Denbighshire Historical Society Transactions*, 11 (1962).

I. Edwards, 'Iron Production in North Wales: The Canal Era: 1795-1850', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 14 (1965).

I. Edwards, 'History of the Monsanto chemical works site, Cefn Mawr, Wrexham', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 16 (1967).

I. Edwards, 'Gazetteer of Clayworks in the Wrexham and Ruabon districts', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 36 (1987).

D. Gwyn, "'Best adapted to the general carriage": railways of the Llangollen canal, their history and archaeology', *Patrimoine de l'Industrie: resources, pratiques*, 18 (2008).

E. Hubbard, *The Buildings of Wales: Clwyd (Denbighshire and Flintshire)* (Llundain, 1986).

S. Hughes, 'Thomas Thomas, 1817-88: the first national architect of Wales', *Archaeologia Cambrensis*, 152 (2003).

C. N. Hurdsman, *A History of the Parish of Chirk* (Wrecsam, 1996).

C. N. Hurdsman, *A History of the Parishes of St. Martin's & Western Rhyn* (Wrecsam, 2003).

P. Thoresby Jones, *Welsh Border Country* (Llundain, 1938).

G. G. Lerry, *Collieries of Denbighshire* (Wrecsam, 1946).

G. G. Lerry, 'The Industries of Denbighshire from Tudor times to the present, Part III (a): More recent developments', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 8 (1959).

S. Lewis, *Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1838).

- R. Martin, 'Changes in the Vale of Llangollen, 1790–1865', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 48 (1999).
- G. H. Morton, *The Carboniferous Limestone and Cefn y Fedw Sandstone of the Country between Llanymynech and Minera North Wales* (Llundain, 1879), tudalennau 49–50.
- D. Pratt, 'G.W.R., Pont Cysyllte Branch', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 32 (1983).
- D. Pratt ac A.G. Veysey, *A Handlist of the Topographical Prints of Clwyd* (Penarlâg, 1977).
- J. Quartermaine, B.Trinder ac R.Turner, *Thomas Telford's Holyhead Road* (Efrog, 2003).
- D. Morgan Rees, *The Industrial Archaeology of Wales* (Newton Abbott, 1975).
- P. A. Riden, *A Gazetteer of Charcoal-fired Blast Furnaces in Great Britain in use since 1660* (Caerdydd, 1993).
- E. Rogers: 'Notes at Random on eighteenth century Denbighshire', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 6 (1957).
- A. Skempton a J. Thomas, *Hanes y Methodistiaid Calfinaidd yn Acrefair, 1838-1901* (Rhosymedre, 1901).
- B. Trinder, *Robert Baugh's Map of Shropshire* (Cymdeithas Archeolegol Swydd Amwythig, 1983).

Ôl-nodion

1. P. Thoresby Jones, *Welsh Border Country* (Llundain, 1938).
2. George Borrow, *Wild Wales*, (Llundain a Glasgow, 1955).
3. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Castell y Waun 6060 (1808).
4. A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales* (Wrecsam, 1990).
5. Map of Plas Kynaston Estate and Colliery... the property of William Owen esq ... 1804, Swyddfa Cofnodion Penarlâg. (D/DM/162/8).
6. A. Skempton, *Biographical Dictionary of Civil Engineers, Volume 1 1500-1830* (Llundain, 2002).
7. G. G. Lerry, 'The Industries of Denbighshire from Tudor times to the present, Part III (a): More recent developments', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 8 (1959).
8. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Wynnstey RA39.
9. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Plwyf Llangollen, trefgordd Trefor Isaf, map y degwm ac atodlen.
10. G. H. Morton, *The Carboniferous Limestone and Cefn y Fedw Sandstone of the Country between Llanymynech and Minera North Wales* (Llundain, 1879), tudalennau 49–50. Mae graeanfaen y ddyfrbont yn ffurfio israniad uchaf ffurfiant tywodfaen Carbonifferaidd Uwch Cefn y Fedw (tywodfaen gyda sialau a rychau tenau o lo o'r enw Glo Cefn a Glo Chwarel).
11. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Wynnstey RA39.
12. Cyfrolau darluniau Llyfrgell Genedlaethol Cymru 93, fol. 38, CRO: X/Plans/RD/2, map o'r ffordd o'r Waun i Fangor, 1817.
13. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Map y degwm o Langollen, trefgordd Cysyllte, 1844.
14. E. Rogers, 'Notes at Random on eighteenth century Denbighshire', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 6 (1957), mae tudalennau 61-63 yn dynodi gwaith glo yng Nghoed y Delph cyn amser Edward VI ac ar ystod Kynaston rhwng 1693 a 1702.
15. G. G. Lerry, *Collieries of Denbighshire* (Wrecsam, 1946), tudalen 132.
16. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Blwch 36, PA4011: Golygfa o Acrefair yn 1794.
17. G. G. Lerry, *Collieries of Denbighshire* (Wrecsam, 1946), tudalennau 102–08.
18. I. Edwards, 'Monsanto chemical works', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 16 (1967); map 1, o'r HRO gwreiddiol: D/DM/162/8.
19. G. Lerry, *Collieries of Denbighshire* (Wrecsam, 1946), tudalen 106.
20. G. Lerry, *Collieries of Denbighshire* (Wrecsam, 1946), 132.
21. G. Lerry, *Collieries of Denbighshire* (Wrecsam, 1946), 117.
22. G. Lerry, *Collieries of Denbighshire* (Wrecsam, 1946); CBHC Coflein.
23. A. Connolly, *Life in the Victorian brickyards of Flintshire and Denbighshire* (Llanrwst, 2003), tudalennau 271 a 276–78; www.archiveswales.org.uk.
24. A. Connolly, *Life in the Victorian brickyards of Flintshire and Denbighshire* (Llanrwst, 2003), tudalennau 29 a 54.

25. A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales* (Wrecsam, 1990), tudalennau 91–92.
26. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Blwch 36, PA4011: Golygfa o Acrefair yn 1794; HRO: D/DM/162/17: cynllun ffordd o 1818 o Drefor Isaf.
27. J. Quartermaine, B.Trinder ac R.Turner, *Thomas Telford's Holyhead Road* (Efrog, 2003), tudalen 149.
28. N. Hurdsman, *A History of the Parish of Chirk* (Wrecsam, 1996), tudalen 39.
29. HRO: D/DM/162/8 Map o Ystad Plas Kynaston.
30. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Castell y Waun, llawysgrif 9629.
31. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: map y degwm o Gristionydd Cynrig.
32. NA: RAIL 826/4 tudalen 79, tudalennau 83-4, RAIL 826/2, tudalen 69, tudalen 89, RAIL 826/5 tudalen 48.
33. D. Pratt, 'G.W.R., Pont Cysyllte Branch', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 31 (1982).
34. Pratt, D., 'G.W.R., Pont Cysyllte Branch', *Denbighshire Historical Society Transactions* 31 (1982) tudalen 39.
35. *Shrewsbury Chronicle* 19 Chwef 1808. Mae Walter Davies hefyd yn cyfeirio'n ddirgel ato yn ei *General View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales*: (Llundain, 1813, tudalen 381): 'The main trunk [i.e. of the Ellesmere canal] – proceeds from Gwersyllt to Bersham Ironworks: and by a connection of iron rail-roads pervading the Ruabon collieries, it appears a second time upon the Dee at Pont-Cyssylltau.'
36. D. Pratt, 'G.W.R., Pont Cysyllte Branch', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 31 (1982), tudalen 41; a *Shrewsbury Chronicle* 3 Awst 1810.
37. Roedd Jessop eisoes wedi adeiladu Rheilffordd Haearn Surrey i bob pwrpas (1801-1803), a rhwng 1808 a 1811 aeth ymlaen i adeiladu Rheilffordd Kilmarnock a Troon. *Edinburgh Encyclopaedia*, Vol. 15, tudalennau 246–47; ac A. Skempton, *Biographical Dictionary of Civil Engineers*, Volume 1 1500–1830 (Llundain, 2002), cofnodion ar gyfer Duncombe a Jessop.
38. O amgylch NGR 32797 34245.
39. Gwybodaeth gan Peter Brown.
40. I. Edwards, Collection of records from Messrs. Longueville & Co., Oswestry *Denbighshire Historical Society Transactions*, 11 (1962), RhRO: QSD/DR/36, Rheilffordd Penbedw, Caer, Yr Wyddgrug, Rhiwabon a Dyffryn Llangollen, cynllun a llyfr cyfeirnod a adnewwyd, 1845.
41. Cyfres Sir Ddinbych 25 modfedd yr Arolwg Ordhans 1873, XXXV 9, 10, 13, 14.
42. Elton Collection argraffiad AE 185.2294; gweler hefyd Swyddfa Cofnodion Caernarfon X/Plans/RD/2.
43. HRO: D/DM/162/16 Map o drefgordd Cysyllte, 1842.
44. Sylwadau gan M. J. T Lewis on E. Cooper, 'Festiniog Railway Reminiscence', *Festiniog Railway Heritage Group Journal*, 81 (2005), tudalen 29.
45. V. J. Bradley, *Industrial Locomotives of North Wales*, (Llundain, 1993), tudalennau 84–85.
46. Nid yw'n glir pryd y cafodd ei adeiladu – efallai yn y 1860au. I ychwanegu at gymhlethdod y stori, mae Ifor Edwards yn awgrymu iddo gael ei adeiladu ar safle tramffordd adeiladu o gyfnod adeiladu'r ddyfibront.

47. G. Vernon Price, *Servants of God: A History of the Baptists of Cefn Mawr and District, Denbighshire ; Their Ministers, People and Times* (1964), tudalennau 2, 201.
48. G. Vernon Price, *Servants of God: A History of the Baptists of Cefn Mawr and District, Denbighshire; Their Ministers, People and Times* (1964), tudalen 268.
49. A. Connolly, *Life in the Victorian Brickyards of Flintshire and Denbighshire* (Llanrwst, 2003); gan ddyfynnu o *The Wrexham Advertiser* (1863).
50. 'Map of Plas Kynaston Estate and Colliery ... 1804', with schedule (D/DM/168/8).
51. E. Rogers: 'Notes at Random on eighteenth century Denbighshire', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 6 (1957), tudalen 66.
52. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: llawysgrif 2048: 'Form and manner of keeping the Leet Courts in the Lordships of Bromfield and Yale' (Llyfrgell Genedlaethol Cymru: llawysgrif 2048).
53. G. Vernon Price, *Servants of God: A History of the Baptists of Cefn Mawr and District, Denbighshire ; Their Ministers, People and Times* (1964), tudalennau 90–93.
54. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: map y degwm ar gyfer Christionydd Kenrick.
55. Rheilffordd Penbedw, Gogledd Cymru a Stafford, cynllun a llyfr cyfeirnod a adnewwyd, 1871: DRO, QSD/DR/191.
56. HRO: D/DM/136/16 (Map o Ystad Plas Kynaston).
57. E. Rogers: 'Notes at Random on eighteenth century Denbighshire', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 6 (1957), p, 66.
58. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: map y degwm ar gyfer Cristionydd Cynrig.
59. HRO: CB/5/2 (Map o Ystad Plas Kynaston).
60. SJ 2847 4254; CBHC Coflein.
61. E. Rogers: 'Notes at Random on eighteenth century Denbighshire', *Denbighshire Historical Society Transactions*, 6 (1957), tudalen 66.
62. HRO: D/DM/162/16 (Map o drefgordd Cysyllte, 18420).
63. E. Hubbard, *The Buildings of Wales: Clwyd (Denbighshire and Flintshire)* (Llundain, 1986), tudalen 117.

Atodiad

Asesiad Desg o Botensial Archeolegol Safle Flexsys

Cyflwyniad i'r Asesiad Desg Presennol

Comisiynwyd ymgynghoriaeth Govannon gan Cadw i gynnal asesiad desg o safle Flexsys fel rhan o'r broses o lywio rhaglen o nodweddion hanesyddol Cefn Mawr a'r ardal o amgylch. Roedd hyn i gynnwys cerdded o amgylch y safle, astudio ffynonellau presennol dadansoddiad atchweliad o fapiau.

Nodau ac Amcanion

Nodau ac amcanion yr asesiad oedd nodi potensial archeolegol o fewn y safle a llywio proses nodweddu trefol o'r ardal ehangach.

Methodoleg

Roedd y fethodoleg y cytunwyd arni gyda Cadw yn cynnwys ymweliad safle a cherdded o amgylch gyda staff Flexsys, ac astudiaeth o ffynonellau archifol ac eilaidd perthnasol, yn cynnwys dadansoddiad atchweliad o fapiau GIS. Cafodd mapiau 25 modfedd yr Arolwg Ordans eu digideiddio i system GIS fodern i sicrhau y gellid lleoli nodweddion cynharach. Ar ôl trafodaeth gyda Cadw, cytunwyd, o ystyried y newid sylweddol a fu ar y safle o ddechrau'r ugeinfed ganrif ymlaen, a'r tebygolrwydd y bydd olion traed adeiladau amlgyfnod a nodweddion eraill wedi goroesi o dan y ddaear, y dylid rhoi blaenoriaeth i nodi strwythurau cynharach o'r cyfnod diwydiannol.

Canfyddiadau'r Asesiad Desg

Lleoliad

Lleolir safle Flexsys yn SJ 277 427 yng nghymuned Cefn Mawr, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Fe'i lleolir ar y llethrau sy'n wynebu'r gorllewin yng Nghefn Mawr, yn edrych dros safle Treftadaeth y Byd Pontcysyllte ym masn Trefor, ac mae'n ymestyn i lawr i waelod Aber-nant, un o lednentydd afon Dyfrdwy.

Ffynonellau ac astudiaethau sy'n bodoli eisoes

Mae llawer o fapiau da ar gael o'r safle rhwng 1804 a 1912. Gwnaeth Ifor Edwards waith ymchwil eang ar y safle a'i hanes; cyhoeddwyd y canlyniadau yn *Nhrafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych* yn 1967. Fodd bynnag, mae diffyg safleoedd gwaith manwl ar gael, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad yng ngweithgareddau Flexsys's ei hun ar y safle a phryderon diogelwch sy'n amgylchynu unrhyw safle cemegol. Adnewydd archif Flexsys ei hun yn ddiweddar yng Nghanolfan A. N. Palmer (mewn storfa dros dro ar hyn o bryd), ar ôl trafodaeth ag awdur yr adroddiad presennol, ac mae'n cael ei storio. Deallir ei bod wedi'i chatalogio. Ni nodwyd llawer o ffotograffau archif o'r safle. Dengys archifau Wrecsam DFL2/7/92 y safle tua 1930.

Hanes y safle

Mae safle Flexsys, a enwyd ar ôl y cwmni sy'n gweithredu yno ar hyn o bryd, wedi'i ddefnyddio i fwrw cydrannau haearn bwrw; i gloddio am lo; i gynhyrchu crochenwaith; i gynhyrchu cynhyrchion peirianwaith; ac, yn fwy diweddar, i gynhyrchu cemegion. Y ffocws diwydiannol gwreiddiol ar gyfer y safle oedd y ffowndri, a sefydlwyd tua 1804 tuag at y rhan ogleddol. Roedd rhan ddeheuol y safle heb ei datblygu, ac fe'i dangosir yn rhannol goediog o hyd ar fap o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (HRO: D/DM/136/16). Ehangodd tua'r de oherwydd anghenion y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae cynlluniau'r gwaith a gyhoeddwyd yng ngwaith Ifor Edwards (1967), fel yr oedd yn 1914 a 1920-22, yn dangos y bu llawer o newidiadau sylweddol, gan adlewyrchu anghenion 'rhyfel y cemegwyr', a gwelwyd newid sylweddol pellach ar y safle cyfan ar ôl 1945. Roedd diwydiannau cemegol

yn hanfodol i'r gwaith o gynhyrchu tanwydd, ffrabrigau, deunydd ffrwydrol, gwrtaith a rwber, yn ogystal ag arfau cemegol, yn ystod y ddau ryfel byd. Cynhyrchodd y gwaith cemegol ar safle presennol Flexsys gynhwysion hanfodol ar gyfer gwneud rwber ar gyfer cerbydau ffyrdd â theiars o'r 1950au.

Bwrw

Ar ôl i William Hazeldine, y meistr haearn o Amwythig, sicrhau contract y gwaith haearn ar gyfer Dyfribont Pontcysyllte, sefydlodd y ffoundri yn Mhlas Kynaston yn 1804 yn ardal SJ 2767 4271. Mae'r datblygiad hwn yn adlewyrchu'r angen i ddarparu gwaith haearn arbenigol i gwmni'r gamlas, a thraddodiad sefydledig gwaith haearn yn y rhanbarth. Er bod ffoundriau yn fathau cyffredin o safleoedd ar gyfer y cyfnod hwn, mae ffoundri Plas Kynaston yn arbennig o bwysig gan ei bod wedi darparu rhai o'r cydrannau ar gyfer cynllun arloesol Dyfribont Pontcysyllte.

Cloddio am lo

Nodwyd sawl lleoliad fel 'Old Shaft (Coal)' ar fapiau 25 modfedd yr Arolwg Ordnans, sy'n awgrymu bod y gwaith cloddio wedi dod i ben cyn 1873. Gan fod y rheilffordd yn cysylltu â'r safle o'i gyfnod cynharaf, gellid cludo glo o'r pyllau eraill cyfagos.

Crochenwaith

Dangosir 'Plas Kynaston pottery' oedd yn waith mawr ar argraffiad cyntaf ac ail argraffiad mapiau 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1873 a 1899 yn SJ 2768 4240. Deallir bod Samuel Rowley wedi sefydlu crochenwaith ar y safle yn 1818 neu cyn hynny; disgrifiwyd yn 1842 bod ganddo 'engines and machinery of every description'. Credir fod crochenwaith Plas Kynaston wedi'i sefydlu ar safle presennol Flexsys gan Thomas Edward Ward yn 1824, gan weithgynhyrchu priddwaith bras. Roedd wedi'i ddymchwel erbyn adeg trydydd map 25 modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1912.

Peiriannu

Er nad oedd ffoundri Plas Kynaston yn cynhyrchu peirianwaith, sicrhodd y gallai nifer o weithdai peirianwaith gael eu sefydlu gerllaw. Ymysg y rhain roedd gwaith tiwbiau Plas Kynaston (SJ 2774 4271 yn fras), a'r gwaith sgriwiau, nad yw ei leoliad yn glir.

Cynhyrchu cemegion

Roedd dau brif waith cemegion yn gweithredu ar y safle.

Mewn partneriaeth â'r cyfreithiwr o Fanceinion, Timothy Crowther, sefydlodd Graesser, y fferylydd o'r Almaen, waith yng Nghefn Mawr yn 1867 i gynhyrchu paraffin o siâl gwaith glo. Addysgwyd Graesser yn yr academi gloddio yn Chemnitz yn Sacsoni, a sefydlodd ei yrfa yn y diwydiant cemegol ffyniannus yn yr Almaen cyn dod i Gymru.

Pan agorodd ffynhonnau olew America, cwmpodd y farchnad a diddymwyd y bartneriaeth. Datblygodd Crowther ei waith i'r gorllewin o gamlas Plas Kynaston a datblygodd Graesser waith i'r dwyrain. Bu Crowther a'i olynwyr yn gweithio ar eu safle hyd at tua 1890, pan ymddengys iddynt gael eu disodli gan Graesser, a oedd, yn y cyfamser, wedi troi at gynhyrchu ffenol o garbolig bras a gynhyrchwyd gan y diwydiannau nwy a thar. Roedd ei weithrediadau'n cynhyrchu hanner cyflenwad y byd erbyn 1910. Drwy gysylltiadau teuluol yn Sacsoni, cynhyrchodd lifion synthetig ac asid picrig ar gyfer trin llosgiadau. Yn 1920 caffaelwyd hanner cyfranddaliad gan Waith Monsanto o St Louis, Missouri (a enwyd ar ôl Olga Monsanto, gwraig y sylfaenydd, John Francis Queeny), gan gynhyrchu sacarin, fanilin, asid salisylig ac aspirin. Yn 1928 daeth partneriaeth Graesser i ben, ac o 1930 cynhyrchwyd cemegion rwber. Ffurfiwyd Solutia, perchenogion presennol Flexsys Rubber Chemicals Limited, ar 1 Medi 1997 i ddisodli Monsanto, gan ganolbwyntio ar weithgynhyrchu cemegion arbenigol iawn ar gyfer y diwydiant rwber rhyngwladol.

Mae'r safle'n cynhyrchu tri chemegyn rwber – vulcanization accelerator diphenyl guanidine (DPG); trimethylquinoline (TMQ), sadiwr UV (sylwedd atal diraddio, sy'n lleihau effaith golau'r haul ar rwber); ac N-cyclohexylthiophthalimide (CTP), ataliwr cyn fwlcanedd. Mae'r safle hefyd yn cynnig cyfleusterau cynhyrchu parhaus a chynhyrchu swmp ar gyfer gweithredwyr gwadd fel DuPont Air Products, sy'n cynhyrchu deunyddiau nano yno ar hyn o bryd. Cyflenwir ychwanegion rwber Flexsys i weithgynhyrchwyr teiars mawr fel Michelin, Bridgestone a Goodyear, a chynhyrchwyr nwyddau rwber cyffredinol.

Fel rhan o ymerodraeth Flexsys, mae gwaith Cefn Mawr yn parhau i gynhyrchu ar raddfa lai, er y rhagwelir y bydd yr holl waith wedi dod i ben cyn hir.

Disgrifiad o Safleoedd

Mae'r Prif Rifau Cyfeirnod a roddir yn y cofnodion canlynol yn cyfeirio at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol a ddelir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys.

1 PRN: dim – iard neu ardd amgaeedig Plas Abernant

NGR: SJ 2767 4271

Nodwyd ar HRO: D/DM/136/16 ac fe'i gwelir o hyd yn nhrydydd argraffiad map 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1912, ardal amgaeedig ger y ffoundri, sy'n gysylltiedig â thŷ (Plas) Abernant yn ôl y sôn. Awgryma'r rhifyn cyntaf o fap 25 modfedd yr Arolwg Ordnans (1873) mai gardd amgaeedig ydoedd gyda phatrwm hirsgwar o lwybrau, gyda'r tŷ ar ei pherimedr gogleddol. Ni nodwyd unrhyw olion. Mae'n debygol y bydd nodweddion diweddarach wedi dileu sylfeini i raddau helaeth.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol am ei gysylltiad â'r ffoundri

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

2 PRN: dim – Pottery's Lane

NGR: SJ 2775 4276 a 2780 4264 i 2772 4228

Ffordd sy'n arwain ar draws y safle ac sy'n croesi cwrs camlas Plas Kynaston (4) ar y bont Nodwyd ar HRO: D/DM/136/16, mae rhan o'r llwybr yn amlwg yn y dirwedd bresennol.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol fel rhan o'r system drafndiaeth sy'n gysylltiedig â'r safle a'r dirwedd ehangach.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

3 PRN: dim – pont

NGR: SJ 2770 4259.

Mae rhan o bont garreg gyda bwa wedi'i gau gyda brics wedi goroesi yn y fan hon; fe'i hadeiladwyd i gario Pottery's Road dros y gamlas.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol, fel rhan o rwydwaith Camlesi Llangollen Treftadaeth y Byd.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo yn ystod y gwaith ailddatblygu; cadw ac atgyfnerthu.

4 NPRN: 405834 – camlas Plas Kynaston

NGR: SJ 27255 42461

Camlas, a adeiladwyd gan Exuperius Pickering, o Fasn Trefor i SJ 2773 4230, a gynigiwyd yn 1820, a oedd yn anghyflawn (yn bosibl heb ei dechrau o hyd) yn 1829 ac roedd yn bodoli erbyn 1835-36. Rhedai o Fasn Trefor i fan gerllaw tafam The Queen's, a rhoddai fynediad i fentrau Pickering ar safle presennol Flexsys. Rhan o bont garreg gyda bwa wedi'i gau gyda brics wedi goroesi yn SJ 2770 4259 (3). Arweinai cangen o'r gamlas at lethr o odyau calch yn SJ 2746 4261 (safle 18); nodwedd arall oedd y cei yn SJ 2768 4265, yr ymddengys bod rheilffordd yn ei wasanaethu yn ei ddyddiau cynnar ac iddo gael ei ddefnyddio i lwytho glo o weithfeydd glo Cae Glo. Cliriwyd y gamlas yn 1916 fel y gallai cychod camlas gyrraedd y storfa nitrad sodiwm yn y gwaith cemegol. Fodd bynnag, fe'i dymchwelwyd yn raddol a'i llenwi o'r 1950au ymlaen.

Nodir yma y dangosir llinell y gamlas ar bob map ar ôl 1873 fel llinell unigol gyda changen fer i 18, ond fe'i dangosir ar fapiau cynharach (er enghraifft, HRO: D/DM/136/16) fel dwy gamlas gyfochrog o fasn Trefor mor bell â'r odyau calch. Mae Brown (2010) yn trafod yr abnormaledd tybiedig hwn, gan awgrymu mai dim ond cynnig yw'r camlesi cyfochrog sy'n adlewyrchu anallu Pickering, fel perchennog yr odyau calch (a safle Plas Kynaston), a Thomas Ward, yr ymddengys iddo adeiladu'r rhan drwy safle presennol Flexys, i gyfaddawdu, ac iddynt gael eu perswadio i gydweithredu cyn iddi gael ei hadeiladu. Nid yw hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth HRO: D/DM/136/16, sy'n awgrymu i'r camlesi cyfochrog gael eu hadeiladu, a'u hailadeiladu cyn 1873. Mae'r gyfres o ddigwyddiadau yma, a chwrs neu gyrsiau gwreiddiol y gamlas yn aneglur o hyd; er cyfleustra, nodir y llinell ar ôl 1873 ar y map sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Er ei fod wedi'i llenwi i mewn, dim ond yn rhannol yr adeiladwyd dros linell y gamlas (cyn belled ag y gellid gweld), ac mae'n bosibl nad amharwyd yn ormodol ami. Mae rhan o drosbont wedi goroesi.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol, fel rhan o rwydwaith Camlesi Llangollen Treftadaeth y Byd

Bygythiad: Addasu'r safle at ddefnydd arall a cholli llinell y llwybr.

Lliniaru: Ystyried adfer y safle cyn belled â phosibl, gyda deunyddiau a thechnegau priodol.

Mae'n debygol iawn y bydd rhai elfennau o'r gamlas o dan y ddaear yn goroesi ar y safle, a dylid cynnal briff gwyllo bob amser yn ystod unrhyw waith ailddatblygu i adennill tystiolaeth ar gyfer adeiladu, defnyddio ac addasu. Yr ardal yn union i'r de o bont y gamlas sydd wedi goroesi'n rhannol sy'n cynnig y potensial gorau ar gyfer adennill gwybodaeth yn ymwneud ag adeiladu'r gamlas. Pe cai'r gamlas ei hadfer, dylid gwneud hynny cyn belled ag y bo'n ymarferol drwy ddilyn unrhyw dystiolaeth a adferwyd ar gyfer y gwaith o'i hadeiladu a'i halinio.

5 PRN: dim – tramffordd Ruabon Brook/ Oilworks Road

NGR: SJ 2783 4257

Mae cwrs rheilffordd 1805 o fasn Trefor i weithfeydd glo a haearn rhwng Cefn Mawr a Rhosllannerchrugog, a droswyd yn rhai safonol yn ddiweddarach, bellach wedi goroesi fel Oilworks Road. Ni wyddys llawer am ei thechnoleg, ond ymddengys ei bod yn debygol iddi gael ei hadeiladu fel rheiliau plât. Mae'n debygol y byddai mynediad drwy gilffordd i rannau amrywiol y safle, ac mae'n bosibl y gellid adfer tystiolaeth ar gyfer y system hon o unrhyw ran o'r safle.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol, fel rhan o'r system fwydo ar gyfer Camlas Llangollen.

Bygythiad: Difrod i olion o dan y ddaear yn ystod y gwaith dymchwel.

Lliniaru: Briff gwyllo am dystiolaeth o draciau, sliperi ac ati. Bydd adfer arteffactau yn ddigon i sefydlu technoleg y cyfnod rhwng 1805 a'r 1860au, er y dylid rhoi sylw i dystiolaeth o led y dramffordd o dan y ddaear.

6 PRNs: 17065-8, 104387 – Crochendy Plas Kynaston

NGR: SJ 2768 4240

Cyfadeilad crochendy mawr; o'r hyn a nodir ar argraffiad cyntaf 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1873, roedd yn cynnwys dwy odyd yn ogystal â strwythurau eraill ac ardal amgaaedig.

Ni nodwyd unrhyw olion; roedd y cyfodeilad wedi'i ddymchwel erbyn trydydd argraffiad 25 modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1912, a dim ond simnai a nodir. Mae'n debygol, o drafod gyda staff Flexsys, bod sylfeini'r gwaith cemegol o ddiwedd yr ugeinfed ganrif wedi dinistrio unrhyw olion o dan y ddaear i raddau helaeth.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol.

Bygythiad: Difrod i olion o dan y ddaear yn ystod y gwaith dymchwel.

Lliniaru: Briff gwyllo.

7 PRN: dim – gwaith sebon

NGR: SJ 2770 4242

Nodir gwaith sebon yma gan Ifor Edwards. Nodir adeilad bach ar drydydd argraffiad 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1912.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod i olion o dan y ddaear yn ystod y gwaith dymchwel.

Lliniaru: Briff gwyllo.

8 Pyllau ffosydd cerrig

NGR: 2766 4261

Nodweddion a ddangosir ar Arolygon Ordnans 25 modfedd, a nodwyd fel pyllau ffosydd cerrig gan Ifor Edwards.

Pwysigrwydd: rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod i olion o dan y ddaear yn ystod y gwaith dymchwel.

Lliniaru: Briff gwyllo.

9 PRN: 104388 – Ffowndri Haearn Plas Kynaston

NGR: SJ 2770 4274

Adeilad y ffowndri o 1804, sy'n wynebu gogledd i'r de. Fe'i nodir ar y map o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg HRO: D/DM/136/16 fel strwythur hirsgwar gydag ychwanegiad neu adeilad croes yn y gornel de-ddwyreiniol. Erbyn adeg argraffiad cyntaf 25 modfedd map yr Arolwg Ordnans yn 1873, roedd ychwanegiadau wedi'u nodi. Credir ei fod wedi goroesi tan yr ugeinfed ganrif. Ni nodir unrhyw olion heblaw am 10 isod. Mae'n bosibl i sylfeini oroesi, gan nad ymddengys bod gwaith adeiladau wedi mynd rhagddo ar yr holl safle wedi hynny, ac mae ffyrdd ac ynys draffig yno bellach.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol, fel rhan o dirwedd cynhyrchu haearn sy'n gysylltiedig â chamlas a dyfrbontydd Treftadaeth y Byd.

Bygythiad: Difrod i olion o dan y ddaear yn ystod y gwaith dymchwel.

Lliniaru: Gwaith cloddio archeolegol llawn

10 PRN: dim – bwa haearn bwrw

NGR: 2772 4276

Bwa haearn bwrw hanner crwn, y credir iddo gael ei adfer o safle'r ffoundri (9), gyda phlinthiau bellach.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol gan ei fod o fewn y genhedlaeth gyntaf o strwythurau haearn bwrw ac am ei gysylltiad â'r ffoundri.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle neu ei addasu at ddefnydd arall.

Lliniaru: Gwarchod; storio'n ddiogel; cofnod wedi'i lunio gydag adroddiad cefndir.

11 PRN: dim – gwaith cemegol

NGR: SJ 2770 4252

Gwaith cemegol Plas Kynaston, a nodwyd ar argraffiad cyntaf 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1873, sy'n dangos dwy uned gyffiniol rhwng Pottery's Road a'r gamlas, gyda'r hyn sy'n ymddangos yn fynedfa rheilffordd neu'n bibell o bosibl, i strwythur i'r gorllewin o Pottery's Road. Roedd hon yn fenter ar wahân i waith cemegol Graesser am gyfnod, a gafodd ei rhedeg gan Crowther and Company ar un adeg. Erbyn amser ail argraffiad 25 modfedd Arolwg Ordnans o 1899 roedd y safle wedi ehangu, ac eto erbyn argraffiad 1912, pan ddangosir fod iard yn ei amgylchynu; dangosir ffiniau 1912 ar y map sy'n cyd-fynd â'r adroddiad presennol. Ni nodwyd unrhyw olion. Mae'n debygol, o'r drafodaeth gyda staff Flexys, y bydd sylfeini gwaith cemegol o ddiwedd yr ugeinfed ganrif wedi dinistrio'r rhan fwyaf o'r olion o dan y ddaear i raddau helaeth, ond mae'n bosibl bod rhai o'r waliau cynhaliol a nodir yn 31 isod yn dyddio o'r cyfnod hwn.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

12 PRN: dim – gwaith tiwbiau

NGR: SJ 2774 4271 yn fras.

Ystyriodd Ifor Edwards bod yr adeiladau a nodwyd yma ar fap 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1873 yn cynrychioli'r safle hwn.

Roeddent wedi'u haddasu'n sylweddol erbyn adeg arolygon diweddarach, ac wedi'u hymgorffori neu eu disodli gan strwythurau eraill. Ni nodwyd unrhyw olion. Mae'n debygol, o'r drafodaeth gyda staff Flexys, y bydd sylfeini gwaith cemegol o ddiwedd yr ugeinfed ganrif wedi dinistrio'r rhan fwyaf o'r olion o dan y ddaear i raddau helaeth, ond mae'n bosibl bod rhai o'r waliau cynhaliol a nodir yn 31 isod yn dyddio o'r cyfnod hwn.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

13 PRN: dim – gwaith Ward

NGR: SJ 2775 4267 yn fras.

Ystyriodd Ifor Edwards bod yr adeiladau a nodwyd yma ar fap 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1873 yn cynrychioli'r safle hwn. Roeddent wedi'u haddasu'n sylweddol erbyn adeg arolygon diweddarach, ac wedi'u hymgorffori neu eu disodli gan strwythurau eraill. Ni nodwyd unrhyw olion. Mae'n debygol, o'r drafodaeth gyda staff Flexys, y bydd sylfeini gwaith cemegol o ddiwedd yr ugeinfed ganrif wedi dinistrio'r rhan fwyaf o'r olion o dan y ddaear i raddau helaeth, ond mae'n bosibl bod rhai o'r waliau cynhaliol a nodir yn 31 isod yn dyddio o'r cyfnod hwn.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

14 PRN: dim – gwaith cemegol

NGR: SJ 2778 4261

Safle gwaith cemegol, a nodwyd gan Ifor Edwards yn eiddo i Graesser. Mae ôl troed yr adeiladau a nodir yma fel y dangosir ar drydydd argraffiad y map 25 modfedd o 1912. Mae adeiladau i'w gweld yma yn 1873, ar dystiolaeth map cyntaf 25 modfedd yr Arolwg Ordnans, ac roedd y safle wedi ehangu'n sylweddol erbyn 1899. Mae'n amlwg o dystiolaeth map bod yr adeiladau hyn wedi'u cysylltu gan graen symudol ar y gamlas yn SJ 2773 4257. Mae hefyd yn glir o gofnod Edwards bod y cyfadeilad hwn wedi cael ei newid ymhellach erbyn 1914 a'i ehangu (mae'n debyg oherwydd anghenion adeg y rhyfel) erbyn 1920-21. Erbyn 1914 roedd y rhan ddeheuol yn cynnwys adeiladau amrywiol a oedd yn gysylltiedig â gwneud ffenol coeth; ac mae'n debygol bod y nodweddion cylchol amrywiol a nodwyd ar drydydd argraffiad 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1912 yn golofnau distyllu.

Roedd yr adeiladau gogleddol yn cynnwys gwaith Webb ar gyfer adfer asid picrig, cyfleusterau ar gyfer storio a chrisialu hylifau carbolig, peiriannau oeri a phympiau, storfeydd a thŷ boeler. Erbyn 1920-21, roedd wedi ehangu tua'r de (ni ddangosir), i gynnwys cyfleusterau ar gyfer distyllu asid nitrig a dwysáu asid sylffwrig, gwaith ar gyfer gwneud cemegion i'r diwydiant rwber a thŷ boeler a phwerdy gyda simnai concriid. Mae'n debygol y gall fod rhai o'r waliau cynhaliol a nodir yn 31 isod yn dyddio o'r cyfnod hwn.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo; cofnod fphotograffig.

15 PRN: dim – siafft glo

NGR: SJ 2769 4260

Nodwyd yn rhifyn cyntaf 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1873. Ni nodwyd unrhyw olion.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

16 PRN: dim – siafft glo

NGR: SJ 2767 4249

Fe'i nodwyd ar argraffiad cyntaf ac ail argraffiad 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1873 a 1899 yn 'Old Shaft (Coal)'. Ni nodwyd unrhyw olion.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

17 PRN: dim – siafft glo

NGR: SJ 2767 4248

Nodwyd yn rhifyn cyntaf 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1873. Ni nodwyd unrhyw olion.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

18 PRN: dim – odynau calch

NGR: SJ 2745 4261

Llethr odynau calch aml-dwll, a wasanaethir gan gamlas Plas Kynaston (4) ac a lwythwyd gan lwybr cert a arweinai oddi ar Stryd y Frenhines. Mae'n amlwg ar fap Swyddfa Cofnodion Penarlâg

(Sir y Fflint) o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg D/DM/136. Fe'i nodwyd fel 'Old Limekiln' ar ail argraffiad 25 modfedd yr Arolwg Ordnans, gan awgrymu y rhoddwyd y gorau i'w ddefnyddio rhwng 1873 a 1899. Mae'r safle bellach yn goediog iawn ac wedi tyfu'n wyllt; arsylwyd nifer o frics wedi'u stampio gyda 'JCE' ar y safle.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

19 PRN: dim – rheilffordd Ward

NGR: SJ 2773 4232

Rheilffordd oedd yn cysylltu â phen deheuol Camlas Plas Kynaston drwy dwnnel o dan Stryd y Frenhines. Fe'i dangosir ar argraffiad cyntaf 25 modfedd yr Arolwg Ordnans o 1873, sy'n dangos strwythur neu ddyfais dros y gamlas ar y pwynt lle mae'n tywallt arno, sy'n awgrymu efallai ei fod wedi llwytho cychod camlas drwy dröwr, neu ei bod yn croesi'r gamlas drwy bont godi i roi mynediad i'r siafftiau yn SJ 2767 4249 ac SJ 2767 4248 (16 a 17), ac i ddarparu glo i'r gwaith cemegol (11) – neu'r holl bosibiliadau hyn neu rai ohonynt. Credwyd yn wreiddiol ei bod wedi'i adeiladu i roi mynediad o waith glo yn SJ 2781 4200 i'r gamlas, er bod ei gwreiddiau yn aneglur a dadleuol (gweler Brown, 2011). Ni nodir unrhyw olion yn ardal Flexsys, er ei bod yn debygol bod y twnnel wedi goroesi'n rhannol a gellir gweld olion o'r llwybr i'r de o Stryd y Frenhines.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

20 PRN: dim – safle'r tŷ a'r ardd

NGR: SJ 2749 4255

Tŷ, neu dai o bosibl, ar Queen Street, gyda gardd gysylltiedig. Ni nodwyd unrhyw olion.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

21 PRN: dim – adeilad, safle fferm Ned Bowen

NGR: SJ 2776 4239

Strwythur a nodwyd ar HRO: D/DM/136/16, map o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o bosibl

ar fap drafft un fodfedd yr Arolwg Ordans o'r 1830au, ac a welir o hyd ar drydydd argraffiad 25 modfedd yr Arolwg Ordans. O darddiad amaethyddol, fe'i nodir gan Edwards (1967) fel 'Ned Bowen's farm'. Ystyriodd Ifor Edwards ei bod yn bosibl bod yr adeiladau a nodwyd yma ar fap 25 modfedd yr Arolwg Ordans o 1873 yn cynrychioli gwaith sgriwiau Sylvester, sydd, o bosibl, yn addasiad o adeiladau a fodolai eisoes. Roeddent wedi'u haddasu'n sylweddol erbyn adeg arolygon diweddarach, ac wedi'u hymgorffori neu eu disodli gan strwythurau eraill. Ni nodwyd unrhyw olion. Mae'n debygol y byddai gwaith diweddarach wedi dinistrio'r mwyafrif o'r olion o dan y ddaear i raddau helaeth.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

22 PRN: dim – adeilad, safle fferm Ned Bowen

NGR: SJ 2779 4239

Strwythur a nodwyd ar HRO: D/DM/136/16, map o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o bosibl ar fap drafft un fodfedd yr Arolwg Ordans o'r 1830au, ac a welir o hyd ar drydydd argraffiad 25 modfedd yr Arolwg Ordans. O darddiad amaethyddol, fe'i nodwyd gan Edwards yn 'Ned Bowen's farm' ond ystyriodd Ifor Edwards ei bod yn bosibl ei fod yn cynrychioli gwaith sgriwiau Sylvester, sydd, o bosibl, yn addasiad o adeiladau a fodolai eisoes. Ni nodwyd unrhyw olion. Mae'n debygol y byddai gwaith diweddarach wedi dinistrio'r mwyafrif o'r olion o dan y ddaear i raddau helaeth.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

23 PRN: dim – siafft glo

NGR: SJ 2762 4240

Siafft glo a nodwyd ar yr argraffiad cyntaf 25 modfedd o 1873 ac ar yr ail argraffiad o 1899 fel 'Old Shaft (Coal)'. Ni nodwyd unrhyw olion.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

24 PRN: dim – safle adeiladau

NGR: SJ 2773 4275 a 2772 4274

Adeiladau sy'n gysylltiedig â'r ffowndri o bosibl (9). Fe'u dangosir ar argraffiad cyntaf, ail a thrydydd argraffiad 25 modfedd yr Arolwg Ordans o 1873, 1899 a 1912, er eu bod wedi cael eu newid rywfaint o un arolwg i'r nesaf. Ni nodwyd unrhyw olion. Mae'n debygol y byddai sylfeini gwaith diweddarach wedi dinistrio'r rhan fwyaf o'r olion o dan y ddaear i raddau helaeth.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

25 PRN: dim – cilffyrdd rheilffordd cynnar

NGR: SJ 2767 4266

Llwybr bras cilffyrdd o reilffordd Ruabon Brook drwy'r safle i gei ar Gamlas Plas Kynaston (4), yn SJ 2767 4266 fel y nodir yn Swyddfa Cofnodion Penarlâg (Sir y Fflint) D/DM/136. Ymddengys bod y rhain wedi rhoi mynediad uniongyrchol i'r gamlas ac i'r ffowndri o'r pyllau glo yng Nghae Glo.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo am dystiolaeth o draciau, sliperi ac ati.

26 PRN: dim – safle llyn y ffowndri

NGR: SJ 2766 4278

Safle'r llyn sy'n gysylltiedig â (9), fel y nodwyd ar fapiau 25 modfedd yr Arolwg Ordans, sydd bellach wedi'u claddu gan nodweddion diweddarach.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol fel rhan o system y ffowndri.

Bygythiad: Difrod i olion o dan y ddaear yn ystod y gwaith o ddymchwel/ailddatblygu'r safle.

Lliniaru: Briff gwyllo.

27 PRN: dim – mynwent

NGR: SJ 2748 4280

Mynwent, a nodir ar fap 25 modfedd yr Arolwg Ordans o 1872.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Dim wedi'i nodi.

Lliniaru: Dim.

28 PRN: dim – tai
NGR: SJ 2759 4286

Clwstwr o dai a nodwyd ar argraffiad cyntaf, ail a thrydydd argraffiad 25 modfedd yr Arolwg Ordans, y gwnaed newidiadau iddynt rhwng 1873 a 1912. Anedd deulawr o frics wedi'u gwyngalchu gyda tho llechi sydd wedi goroesi ar hyn o bryd, ac y mae rhywun yn byw ynddo.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Dim wedi'i nodi.

Lliniaru: Dim.

29 PRN: dim – tŷ boeler
NGR: SJ 2781 4269

Tŷ boeler mawr ar ôl 1945 ar berimedr dwyreiniol y safle, a chanddo ffrâm ddur ac a wnaed o frics, yn y broses o gael ei ddymchwel, mis Hydref 2010, ac y trefnwyd iddo gael ei ddymchwel yn derfynol ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf 2011. Roedd hyn yn darparu stêm ar gyfer hwyluso a rheoli'r prosesau cemegol yn y llestri adweithio.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Dymchwel parhaus.

Lliniaru: Cofnod ffotograffig.

30 PRN: dim – bloc swyddfa/gweinyddol
NGR: SJ 2771 4278

Bloc swyddfa/gweinyddol gyda tho danheddog, sy'n cael ei ddefnyddio.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Dymchwel parhaus.

Lliniaru: Cofnod ffotograffig.

31 PRN: dim – gwaith cemegol ac ardal brosesu
NGR: SJ 277 425 C

Ardal eang o waith prosesu cemegol drwy gymorth disgyrchiant, sy'n llawer llai erbyn hyn, a oedd, hyd yn ddiweddar, yn cynnwys ardal eang o unedau ar wahân a phob un yn ymroddedig i ddulliau manwl penodol wedi'u hymgysylltu gyda phibellau i gludo deunydd o un uned weithredu i'r llall. Mae wedi esblygu o waith cynharach Graesser ond gwnaed newidiadau sylweddol iawn iddo; dengys ffotograff a gymerwyd yn y 1930au y safle gydag adeiladau aml-lawr a dwy simnai frics yn amlwg arno, nad oes olion amlwg

ohonynt bellach. Ymysg y nodweddion sydd wedi goroesi mae waliau cynhaliol sawl cam trawiadol, a adeiladwyd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddechrau'r ugeinfed ganrif mae'n debyg, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, yn cynnwys brics gwydrog lleol fel ar berimedr dwyreiniol yr ardal hon, ger cilffyrdd y rheilffordd (32). Ar bwyntiau amrywiol mae nodweddion fel llefydd tân, simneiau a phibellau dŵr wedi goroesi. Y waliau hyn bellach yw'r brif dystiolaeth archeolegol o waith prosesu cemegol hanesyddol ar y safle, ac maent yn ffurfio nodweddion trawiadol a deniadol yn eu rhinwedd eu hunain.

Mae rhai adeiladau wedi'u cadw ond mae llawer o'r gwaith cemegol wedi'i ddymchwel a'i ddileu, gan adael ardal eang o waliau cynhaliol o frics a charreg.

Pwysigrwydd: Cenedlaethol.

Bygythiad: Dymchwel parhaus.

Lliniaru: Cofnod ffotograffig manwl, yn arbennig o waliau cynhaliol; prosesu cofnodion o weithrediadau cemegol sydd wedi goroesi; cadw waliau cynhaliol os yw'n bosibl, gan addasu ac atgyfnerthu lle y bo angen; prosiect hanes llafar ar gyfer y safle cyfan i sicrhau y caiff gwybodaeth archeolegol a geir o strwythurau sydd wedi goroesi ar hyn o bryd ei chofnodi a'i harchifio.

32 PRN: dim – mynediad drwy gilffyrdd o'r GWR

NGR: SJ 2783 4264

Safle cilffyrdd a osodwyd ar ôl 1912 – yn ystod rhyfel 1914–1918 mae'n debyg, gan fod Edwards (1967) wedi nodi eu bod yn bodoli erbyn 1920–21, felly'n disodli'r mynediad rheilffordd safonol gynharach (5) ei hun ar drac rheilffordd Ruabon Brook a dynnwyd gan geffylau. Mae'r safle wedi goroesi fel sillf amlwg ar berimedr dwyreiniol y safle.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Difrod drwy ddymchwel y safle.

Lliniaru: Briff gwyllo am dystiolaeth o leoliad y trac.

33 PRN: dim – bloc swyddfa

NGR: SJ 2765 4282

Bloc swyddfa brics mawr o'r 1950au yn yr arddull modernaidd, gydag estyniad diweddarach i'r cefn (de-orllewin), sy'n cael ei ddefnyddio.

Pwysigrwydd: Rhanbarthol.

Bygythiad: Ailddefnyddio; dymchwel.

Lliniaru: Cofnod ffotograffig.

34 Nodweddion eraill wedi'u claddu

Mae'n debygol, o ystyried natur manteisio diwydiannol yr ardal hon, bod nodweddion eraill, yn arbennig siaffftiau glo, rhannau o reilffyrdd cynnar, ac ati, wedi mynd heb eu nodi, ac y dylid cynnal briff gwyllo cyffredinol ar bob cam o'r gwaith o addasu'r safle hwn.

Canlyniadau Dadansoddiad Atchweliad o Fapiau

Mae dadansoddiad atchweliad o fapiau wedi cadarnhau lleoliad ffowndri Plas Kynaston a nodweddion cynnar eraill ar y safle, ond mae hefyd wedi nodi'r newidiadau sylweddol iawn a wnaed i'r safle ers 1805 hyd heddiw.

Effaith Datblygiadau

Bydd effaith y gwaith parhaus o ddymchwel ac ailddefnyddio safle Flexsys yn effeithio'n sylweddol ar yr archeoleg arwynebol sydd wedi goroesi. Mae'n anodd nodi i ba raddau y mae arteffactau wedi'u claddu yn debygol o ychwanegu at ddealltwriaeth o'r safle neu o'r broses o ddiwydiannu o fewn y rhanbarth ac yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Fodd bynnag, dylid rhoi blaenoriaeth i symud y bwa haearn bwrw i'w gadw'n ddiogel a chloddio safle'r ffowndri.

Casgliadau: Potensial Archeolegol

Daethpwyd i'r casgliad, gydag un eithriad posibl (ffowndri Plas Kynaston – safle 9), nad yw'n debygol iawn y bydd gwaith cloddio archeolegol yn datgelu gwybodaeth am nodweddion diwydiannol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif dros y safle'n gyffredinol, oherwydd y dyfnder y cafodd gwaith cemegol trwm o ddiwedd yr ugeinfed ganrif ei suddo a'r sylfeini sy'n angenrheidiol. Fodd bynnag, dylid cynnal briff gwyllo yn ystod y cyfnod dymchwel terfynol ac unrhyw broses o adfer, ailadeiladu neu dirwedd, yn ogystal â'r camau lliniaru penodol a argymhellwyd ar gyfer safleoedd unigol.

Yr eithriad yw adeilad y ffowndri, a ddylai fod yn destun gwaith cloddio ac arolwg archeolegol llawn.

Mae hefyd yn debygol iawn y bydd rhywfaint o rannau tanddaearol o Gamlas Kynaston wedi goroesi ar y safle, ac mae'n bosibl iawn y bydd gwaith cloddio manwl yn yr ardal yn union i'r de o'r drosbont sydd wedi goroesi'n rhannol yn datgelu gwybodaeth am y broses o adeiladu'r gamlas, y dylid ei defnyddio i lywio unrhyw waith ailadeiladu yn y dyfodol. Mewn mannau eraill, gallai briff gwyllo a gynhelir bob amser yn ystod unrhyw waith ailddatblygu ddatgelu tystiolaeth ar gyfer gwaith adeiladu, defnyddio ac addasu.

Argymhellion

Argymhellir y dylid gwneud y canlynol:

- Cynnal briff gwyllo ar y safle'n gyffredinol.
- Cynnal gwaith cloddio archeolegol ar safle ffowndri Plas Kynaston ac mewn ardal gyfyngedig ar linell camlas Kynaston.
- Cadw nodweddion a nodir, os yw'n bosibl, a'u hatgyfnerthu'n briodol.
- Canlyniadau unrhyw waith cloddio archeolegol i lywio gwaith cadwraeth yn y dyfodol.
- Cofnodi'r waliau cynhaliol, sef prif etifeddiaeth ffisegol y gwaith cemegol bellach.
- Cynnal prosiect hanes llafar i lywio dealltwriaeth archeolegol o'r safle a'r nodweddion a gedwir yn ystod y broses ddatblygu/adfywio, ac annog y gymuned i ymfalchïo yn hanes yr ardal.
- Sicrhau bod unrhyw waith ailddatblygu ar y safle yn parchu prif linellau'r llwybrau trafniadaeth hanesyddol a arferai groesi'r safle, yn cynnwys Camlas Kynaston a Rheilffordd Ruabon Brook.

Llyfryddiaeth

Ffynonellau cyhoeddus

P. Brown, 'The Plas Kynaston Canal', *Journal of the Railway & Canal Historical Society*, 36 (2010).

P. Brown, 'Ward's tramroad', *Journal of the Railway and Canal Historical Society*, 210 (2011).

I. Edwards, Collection of records from Messrs. Longueville & Co., Oswestry *Denbighshire Historical Society Transactions*, 11 (1962).

I. Edwards, 'Iron Production in North Wales: The Canal Era: 1795-1850', *Denbighshire Historical Society Transaction*, 14 (1965).

I. Edwards, 'History of the Monsanto chemical works , Cefn Mawr, Wrexham', *Denbighshire Historical Society Transaction*, 16 (1967).

I. Edwards, 'Gazetteer of Clayworks in the Ruabon and Wrexham Districts', *Denbighshire Historical Society Transaction*, 36, (1987).

Ffynonellau archifol

Swyddfa Cofnodion Rhuthun

QSD/DC/11: Camlas gangen arfaethedig.
NTD/1184 (i): map o ystad Plas Kynaston, c. 1850 (ffotocopi o HRO: D/DM/136/16).

Swyddfa Cofnodion Penarlâg

D/DM/162/8: 'Map of Plas Kynaston Estate and Colliery ... the property of William Owen Esquire ... 1804', gydag atodlen.
D/DM/136/16: map o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ystad Plas Kynaston.
I4893/3: Map o ystad Plas Kynaston c. 1847.
CB/5/12: map o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ystad Plas Kynaston.
D/DM/370 (cynllun o waith glo Plas Kynaston, 1829).

Waterways Trust Gloucester

BW95/2/3: Cynllun o 1803 o'r rheilffordd arfaethedig (darparwyd gan Peter Brown).

A.N. Palmer Centre

Archif Flexys, mewn storfa ar hyn o bryd.

Ffynonellau cartograffig eraill

Arolwg Ordnans

Arolwg 25 modfedd o 1873, 1899 a 1912.

Y Llyfrgell Brydeinig

Darluniau tirfesurwyr, Cynllun 340 (d), 1832, 1835 a 1836 (Cefn Mawr, Acrefair, Trefor).


Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd–Powys, cofnod amgylcheddol hanesyddol.

Diolchiadau


Diolch yn fawr am gyngor Dr Ron Fitzgerald, a chymorth Mr Peter Brown a staff Flexys, yn arbennig Simon Howarth a Vlad Jurkoic.

I Defnydd Hanesyddol o Dir




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government Licence Number: 100017916 (2013).
 Aggraffirchi y map hwn a dderwyd yr Arrolwg Ordnans gyda chwasriad Arrolwg Ordnans ar rasio Rheolwr Llywodraethol Eiddoedd a Phwyllau © Hawlfraint y Goron. Mae aggraffirchi hwb gantallid yn serri Hawlfraint y Goron a gall llyn arwain at erlyriad neu achos iŵr Llywodraethol Cymru. Rhif Trwydded: 100017916 (2013).

2 Cronoleg Aneddiadau




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorized reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government Licence Number: 100017914 (2013).
 Agnodynir y map hon o ddiwydiad y Cartograffeg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrs & Masurys © Hysbysu y Goron. Mae agnodynir hysbysu hysbysu yn torri Hysbysu y Goron a gall hysbysu ar enwau neu achos sŵd Llywodraeth Cymru. Rhif Trwyddod: 100017914 (2013).

3 Llwybrau Trafnidiaeth




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government Licence Number: 100017914 (2013).
 Atgynhychu y map hon o ddiwyddi yr Arlywydd Ordnans ar rai Rheolwr Llyfr a Pwerau © Harffwrdd y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn iaru Haelbwrdd y Goron a gall llyw arwain at enfydd neu aifon i'w Llywodraeth Cymru. Rhif Twydded: 100017914 (2013).

4 Rheilffyrdd




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017914 (2013).
 Aggwylychiad y map hon o ddiwyddiadau ym 1860au ydych chi chiwio'r Arolwg Ordnance gyda chaniatâd Arolwg Ordnance ar ran Rheolwr Llyfrfa a Phawrtydd © Haeffwrdd y Goron. Mae aggwylychiad hon ganiatâd yn corri Haeffwrdd y Goron a gall llyw arwain at erlyddiad new achos aill Llywodraeth Cymru. Rhif Treidded: 100017914 (2013).

5 Safle Flexsys




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government Licence Number: 100017916 (2013).
 Agystrwydd y map hon a dderwydd y Arrolg Ordians grŵp charitad Arrolg Ordians ar rŵn Rheolwr Llyfrs Ei Mawrlyd © Haebrinc y Goron. Mae agystrwydd hok gostad ym norm Haebrinc y Goron a gell hyn arwain at orlymad nes achos iŵd Llywodraeth Cymru. Rŵd Trwydded: 100017916 (2013).

6 Pob Ardal â Nodweddion




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorized reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017916 (2013).
Agyrhysio'r y map hon o ddeunydd yr Ardal Ordnans gŵs chwistid Ardal Ordnans ar ran Rheolwr Llywodraeth Cymru © Hwffruais y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri Hwffruais y Goron a gall hys arwain at enlymad neu achos lliki Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017916 (2013).

7 Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017916 (2013).
 Arwyddiadau y map hon a dderbyddir yn Arrolwg Ordnans gyda chaniatâd Arrolwg Ordnans ar rhan Rheolwr Llywodraeth El Preswylwr © Haelwriaeth y Goron. Mae sgwbiau'r cerbyd hyspwrdd yn cael gantâd yn rannol Haelwriaeth y Goron a gall hyn arwain at erlyriad new achos i'fild Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017916 (2013).

8 Cefn Mawr (I)




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017914 (2013).
 Atgynhychir y map hon o ddeunydd yr Arloeg Ordnans gyda chwasod Arloeg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrau a Mawrtydi © Haelffordd y Goron. Mae atgynhyrchu heb gwasodd yn corri Haelffordd y Goron a goll' llyc awrann at erlyddr rws acton sll' Llywodraeth Cymru. Rhif Trefyddol: 100017914 (2013).

9 Safle Flexsys (2)




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government Licence Number: 100017914 (2013).
 Agyntynrchi y map hon o ddiwyddi yn Arrolwg Ordnans ar ras Rheolwr Llyfrs Eri Mawrlydd © Hawlfrastr y Goron. Mae agyntynrchi holl gaisiadau yn torthi Hawlfrastr y Goron a gall llyn arwain at enillydd neu achos torthi Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017914 (2013).

10 Rhosymedre (3)




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017914 (2013).
 Atgynhyrchir y map hon o ddiwydiad y Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa a Phwylyd © Hawlfraet y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri Hawlfraet y Goron a gall hys arwain at erlyriad neu achos llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017914 (2013).

II Cefn Bychan, Newbridge a Dolydd (4)




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government Licence Number: 100017916 (2013).
 Atgynhyrchio y map hon o ddiwydiad yr Arloeg Ordnans gyda chaniatâd Arloeg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrs a'i Phrentisdi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn tarfu Hawlfraint y Goron a gall llyn arwain at erlywodraeth neu sicrhau i'w Llywodraeth Cymru. RfM Twydded: 100017916 (2013).

I2 Froncysyllte (5)




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017916 (2013).
 Atgynhychu'r y map hon a ddiwyddir y'r Arrolgybwrthodwr Ordnance Survey ar rai Rheolwr Llyfrfa a Hwylfyrdd © Hwylfyrdd y Goron. Mae atgynhychu'r holl brosiectid yn ranni Hwylfyrdd y Goron a gyl llyr awra'n at gylfriad new achis a'ff Llwydwrthod Cymru. Radd Trefnyddid: 100017916 (2013).

13 Trefor a Thref y Nant (6)




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government Licence Number: 100017914 (2013).
 Arwyddir y map hon a dderbydd yr Arrolg Ordians grŵp chartered Arrolg Ordians ar rŵd Rheolwr Llyfrs Eri Pwerydd © Hwylfaint y Goron Mae arwyddir hon ganiatáu yn tanni Hwylfaint y Goron a gall hyn arwain at erlydd nes achos sill Llywodraeth Cymru. Rhif Trefydd: 100017914 (2013).

14 Acrefair (7)



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017914 (2013).
Agyntwyrth y map hon o ddsurpdd y Arolwg Ordnans gyda chwasid Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrs Eri Hwerydd © Hwerydd y Goron. Mae agyntwyrth heb ganiad yn torri Hwerydd y Goron a gall llyc arwain at reffordd neu achos llyc Llywodraeth Cymru. Rhif Treydded: 100017914 (2013).

15 Plasmadog (8)



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017914 (2013).
 Agyddlyricio y map hon a dderwydd yf Arrolwg Ordnans gyda chanddiad Arrolwg Ordnans ar rso Rheolwr Llyda Eri Mawrlydd © Haeflraint y Goron. Mae agyddlyricio heb ganiatid yn gorrri Haeflraint y Goron a gall llyn arwasn ar orlymad nes aillor iM Llywodreth Cymru. Rhif Trelybldd: 100017914 (2013).

